Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Siarter Cyfiawnder Ieuenctid



**© Hawlfraint y Goron 2025.**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.gov.uk/official-documents

# Cynnwys

Cyflwyniad 2

Beth sy'n digwydd os byddaf yn cael fy stopio gan yr heddlu? 8

Beth sy'n digwydd os wyf yn mynd i'r llys? 20

Sut fydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn fy helpu yn y gymuned? 30

Beth sy'n digwydd tra mod i yn y ddalfa ieuenctid? 38

Beth sy'n digwydd ar ôl i mi adael dalfa ieuenctid? 56


Dolenni o gymorth 67

Geiriau anodd 68

# Cyflwyniad



Mae'r gyfraith yn set o reolau y mae'n rhaid eu dilyn i gadw pobl yn ddiogel ac amddiffyn eiddo pobl. Os ydych chi rhwng 10 ac 17 oed ac o dan amheuaeth o dorri'r gyfraith, gallwch ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae torri'r gyfraith hefyd yn cael ei adnabod fel 'troseddu' neu 'gyflawni trosedd'. Prif nod y system cyfiawnder ieuenctid yw atal plant rhag troseddu. Nid oes gwahaniaeth pwy ydych chi neu ba drosedd rydych wedi cael eich cyhuddo ohoni, mae gan blant hawliau arbennig. Mae'r Siarter Cyfiawnder Ieuenctid hwn yn esbonio beth yw eich hawliau. Mae'n eu hamlinellu fel safonau, er mwyn i chi wybod beth i'w ddisgwyl gan yr holl bobl a sefydliadau gwahanol y gallech gyfarfod â nhw yn y system cyfiawnder ieuenctid.



Ar bob cam mae gennych yr hawl i:



Gael eich trin ag urddas a pharch.



Gael eich trin yn deg, beth bynnag yw eich rhyw, hil, iaith, crefydd, rhywioldeb, ethnigrwydd neu anabledd.




Gael cymorth cyfreithiol, gan rywun fydd yn rhoi eich buddiannau pennaf yn gyntaf.



Gael gwybodaeth i'ch helpu a'ch cefnogi chi.



Gael clywed eich llais a’ch barn yn cael ei chymryd o ddifrif.



Fod yn iach a chael eich cadw’n ddiogel rhag niwed.



Gael cyfleoedd i ddysgu, datblygu a gwneud dewisiadau cadarnhaol ar gyfer y dyfodol, beth bynnag sydd wedi digwydd yn y gorffennol.



Gwyno os ydych yn meddwl nad yw’r safonau hyn wedi cael eu hateb.



## Defnyddio'r siarter fel plentyn

Os oes angen cymorth arnoch i ddeall y siarter hwn, gallwch ofyn i rywun rydych yn ymddiried ynddo/ynddi i fynd trwyddo ef gyda chi. Gallai hyn fod eich rhiant, gwarcheidwad, gofalwr, gweithiwr cymdeithasol, rheolwr achos Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, cyfreithiwr neu oedolyn priodol. Nid oes angen i chi ei ddarllen i gyd ar unwaith Rydym wedi defnyddio rhai geiriau yn y siarter hwn na fyddech efallai yn eu deall. Rydym wedi rhoi'r geiriau hyn mewn **print trwm**. Rydym wedi esbonio beth maen nhw'n golygu ar ddiwedd y siarter mewn rhestr o'r enw geiriau anodd. Mae'r map taith cyfiawnder ieuenctid yn dangos camau gwahanol y system. Gallwch ei ddefnyddio i benderfynu pa rannau o'r siarter fydd o fwyaf o gymorth i chi. Gallwch hefyd ddarllen y siarter hawdd i'w ddarllen, sy'n fersiwn fwy syml.




## Defnyddio'r siarter fel ymarferydd

I bobl sy'n gweithio yn y system cyfiawnder ieuenctid, dylech ddefnyddio'r siarter hon fel rhan o'ch ymgysylltiad â'r plentyn i'w helpu i ddeall a chymryd rhan yn y broses gyfiawnder. Nid yw'r siarter hwn yn cymryd lle cyfarwyddyd, safonau na dogfennau presennol, ond mae'n dod â'r wybodaeth bwysicaf ynghyd y dylai plant wybod fel safon siarter. Mae rhai safonau yn cael eu mynegi fel rhywbeth sy'n 'gorfod' neu 'fydd' yn digwydd (yn seiliedig ar y gyfraith), tra bod eraill yn defnyddio geiriau fel 'dylai' (yn seiliedig ar gyfarwyddyd ac arfer gorau). Dylech chi ymgyfarwyddo â'r siarter i sicrhau eich bod yn cyflawni'r safonau disgwyliedig.

I ddarganfod mwy, chwiliwch am siarter cyfiawder ieuenctid.

## Map Taith Cyfiawnder Ieuenctid

Mae hwn yn dangos y prif gamau yn y system cyfiawnder ieuenctid a'r penderfyniadau a wneir.  Gallwch ganfod rhagor o wybodaeth ar bob cam yn y Siarter.



## Beth sy'n digwydd os byddaf yn cael fy stopio gan yr heddlu?





Mae gan yr heddlu swydd bwysig o'ch cadw chi a phawb yn ddiogel. Maen nhw'n gweithio gyda phobl yn eich cymdogaeth i sicrhau bod pawb yn dilyn y rheolau ac yn teimlo'n ddiogel.

Mae'r gyfraith yn rhoi pwerau i'r heddlu i'w helpu i ddatrys troseddu a'i atal rhag digwydd. Ond mae'n rhaid iddynt sicrhau eu bod yn defnyddio'r pwerau hyn yn deg, dim ond pan mae'n angenrheidiol, ac yn y ffordd gywir.

Mae safonau'r heddlu isod yn esbonio sut y dylech gael eich trin os ydych yn dod i gysylltiad â'r heddlu.

Safon heddlu
1

## Gall yr heddlu gysylltu â mi unrhyw bryd a rhaid iddynt ddarparu prawf o bwy ydynt os nad ydynt mewn iwnifform.

- Mae'n bwysig eich bod yn gwybod fod yr unigolyn sy'n eich stopio o'r heddlu. Os nad yw'r unigolyn mewn lifrai, dylai ddangos ei 'gerdyn gwarant', sy'n ffurf o ID sy'n profi ei fod yn rhan o'r heddlu.

Safon heddlu
2

## Gallaf gael fy stopio ac archwilio gan yr heddlu ond mae'n rhaid iddynt esbonio pam maen nhw'n fy archwilio a dilyn rheolau penodol, yn ystod ac ar ôl yr archwiliad.

- Gallwch gael eich **stopio a'ch archwilio** gan yr heddlu os oes ganddynt seiliau rhesymol i feddwl eich bod yn cario rhywbeth na ddylai fod gennych. Er enghraifft, cyffuriau anghyfreithlon neu gyllell. Weithiau gall yr heddlu eich stopio a'ch chwilio, os ydych mewn ardal lle mae risg o drais difrifol ac mae uwch swyddog heddlu wedi cytuno i hyn.
- Ni allwch ddweud na i gael eich archwilio os oes seiliau rhesymol, a gall yr heddlu eich stopio rhag cerdded i ffwrdd os ydych yn ceisio gwneud.
- Os yw'r heddlu yn cofnodi'r archwiliad ar **gamera wedi'i wisgo ar y corff**, dylent ddweud wrthych eu bod yn eich recordio.
- Os gofynnir i chi dynnu rhywbeth rydych yn ei wisgo am resymau crefyddol, fel tyrban neu hijab, dylai'r heddlu fynd â chi i rywle preifat lle na all eraill weld.
- Mae'n rhaid i'r heddlu gwblhau cofnod i ddweud eu bod wedi'ch archwilio a naill ai roi copi i chi o'r cofnod hwnnw neu ddweud wrthych sut y gallwch gael copi.
- Dylai'r heddlu gysylltu â'ch rhiant neu ofalwr os ydych yn cael eich stopio a'ch archwilio.

Safon heddlu
3

## os wyf yn cael fy nghymryd i orsaf heddlu, mae'n rhaid i'r heddlu drefnu i oedolyn priodol ddod i fy nghynorthwyo.

- Gallai'r **oedolyn priodol** fod eich rhiant, gofalwr, **gweithiwr cymdeithasol** neu oedolyn hyfforddedig o gynllun oedolion priodol, ond mae'n rhaid iddynt fod yn annibynnol o'r heddlu.
- Swydd yr oedolyn priodol yw diogelu'ch buddiannau, hawliau a lles. Mae hyn yn cynnwys eich helpu i gyfathrebu, sicrhau eich bod yn deall eich hawliau, a gwirio bod yr heddlu yn gweithredu'n deg ac yn parchu eich hawliau. Ni allant roi cyngor cyfreithiol i chi nac ateb cwestiynau ar eich rhan.
- Mae gennych yr hawl i ofyn i siarad yn breifat â'ch oedolyn priodol ar unrhyw adeg.
- Mae'n rhaid i'ch oedolyn priodol fod gyda chi yn ystod nifer o weithdrefnau heddlu. Mae'r rhain yn cynnwys cyfweliadau, cymryd olion bysedd, cymryd samplau (megis gwallt, gwaed neu wrin), archwiliadau tynnu dillad heb fod yn bwysig iawn, rhoi rhybuddiad ieuenctid neu r**ybuddiad ieuenctid amodol** i chi, neu eich **cyhuddo**. Mae cael eich cyhuddo o **drosedd** yn golygu y bydd rhaid i chi fynd i lys, a bydd y llys yn penderfynu beth sy'n digwydd nesaf.



Safon heddlu

4

## os yw archwiliad heddlu yn datgelu rhannau preifat o fy nghorff, mae'n rhaid i'r heddlu barchu fy hawliau ac urddas.

- Os oes angen i'r heddlu wneud archwiliad sy'n datgelu rhannau preifat o'ch corff, mae'n rhaid i **oedolyn priodol** fod gyda chi yn ystod yr archwiliad.
- Mae rhai sefyllfaoedd lle nad oes angen i oedolyn priodol fod gyda chi. Mae hyn yn cynnwys mewn achosion pwysig iawn lle mae risg o niwed difrifol, neu os nad ydych am i oedolyn priodol fod yno (mae'n rhaid i oedolyn priodol lofnodi cofnod yn cytuno i hyn).
- Os nad yw'r archwiliad yn bwysig iawn, yna mae'n rhaid i isafswm o ddau o bobl fod gyda chi. Gallai hyn fod yn ddau swyddog heddlu (os nad ydych i oedolyn priodol fod yno). Ni ddylai fod mwy na thri o bobl gyda chi, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.
- Mae'n rhaid i bawb yn bresennol fod o'r un rhyw â chi, ac eithrio lle rydych wedi gofyn am oedolyn priodol penodol.
- Mae'n rhaid i'r archwiliad ddigwydd mewn man preifat, fel arfer mewn swyddfa heddlu a byth mewn cerbyd heddlu.
- Mae'n rhaid i chi gael eich archwilio mor gyflym â phosibl, cael caniatâd i wisgo cyn gynted â bod yr archwiliad wedi'i gwblhau, ac na fydd rhaid i chi dynnu'ch holl ddillad ar yr un pryd.
- Os yw'r heddlu yn recordio'r archwiliad, dylent orchuddio'r camera neu ei droi i ffwrdd pan ddatgelir rhannau preifat eich corff.

## Safon heddlu 5

### Os yw'r heddlu am ofyn cwestiynau am os oeddwn i'n rhan o drosedd, mae'n rhaid iddynt esbonio a pharchu fy hawliau.

- Nid yw'r heddlu yn gallu gofyn unrhyw gwestiynau i chi heblaw bod gennych **oedolyn priodol** gyda chi.
- Mae'n rhaid i'r heddlu ofyn i chi a'ch oedolyn priodol os oes eisiau **cyfreithiwr** arnoch. Os oes eisiau ar y naill neu'r llall ohonoch, ni allant ofyn eu cwestiynau hyd bod cyfreithiwr yn cyrraedd.
- Mae'r cyfreithiwr yn gweithio i chi ac nid i'r heddlu. Byddant yn esbonio proses y cyfweliad i chi, yn rhoi cyngor i chi cyn i'r cyfweliad ddechrau ac yn eich cynorthwyo yn ystod y cyfweliad.
- Mae'n rhaid i'r heddlu esbonio bod **rhybuddiad** yn golygu nad oes rhaid i chi ateb eu cwestiynau, ac y gallai'r hyn y penderfynwch ei ddweud gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth yn ddiweddarach.

## Safon heddlu 6

### Os wyf yn cael fy arestio, dylai'r heddlu esbonio beth sy'n digwydd a'u rhesymau dros fy arestio.

- Ni allwch gael eich **arestio** os ydych o dan 10 oed.
- Ni ddylech gael eich arestio mewn ysgol neu goleg heblaw nad oes modd osgoi hyn.
- Dylid mynd â chi yn syth i swyddfa heddlu heblaw eich bod yn cael eich **dad-arestio**.

## Safon heddlu 7

### Bydd fy iechyd a lles yn cael eu gofalu amdanynt, tra byddaf yn swyddfa'r heddlu.

- Gallai'r heddlu ofyn i weithiwr iechyd arbenigol gyfarfod â chi os ydynt yn pryderu am eich iechyd neu les.
- Mae'r gweithiwr iechyd yn rhoi cyngor ar sut i gynorthwyo pobl orau ag unrhyw anghenion iechyd. Mae hyn yn cynnwys os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaeth, os oes gennych anawsterau iechyd meddwl, anabledd dysgu, neu os ydych yn niwroamrywiol (er enghraifft, os oes gennych awtistiaeth neu ADHD).

## Safon heddlu 8


### Bydd yr heddlu ond yn fy nghadw yng ngorsaf yr heddlu am gyhyd ag sy'n angenrheidiol, a byddant yn fy nghadw'n ddiogel ac yn parchu fy hawliau tra mod i yno.

- Dylech chi allu gwneud galwad ffôn i'ch rhiant neu **warcheidwad**.
- Ni ddylech gael eich rhoi mewn **cell** heblaw nad oes unman arall diogel a chyfforddus yn swyddfa'r heddlu. Mae'n rhaid i chi beidio â chael eich rhoi mewn cell byth gydag oedolyn.
- Mae'n rhaid i'r heddlu geisio cysylltu â rhywun sy'n gyfrifol amdanoch chi (fel rhiant, gofalwr, gwarcheidwad neu **weithiwr cymdeithasol**) i roi gwybod iddynt lle rydych chi.
- Os ydych chi'n fenywaidd, bydd aelod fenywaidd o'r staff yn gofalu amdanoch chi.
- Byddwch yn cael bwyd a dŵr, lle i gysgu, dillad neu flancedi i'ch cadw'n gynnes, a chynhyrchion glanweithdra os oes eu hangen arnoch chi.
- Gallwch ofyn am lyfr i'w ddarllen, neu rywbeth i dynnu llun neu ysgrifennu ag ef. Dylai'r heddlu roi gweithgaredd i chi heblaw eu bod yn meddwl ei fod yn risg i'ch diogelwch a'ch lles.
- Ni ddylech gael eich cadw yng ngorsaf yr heddlu am fwy na 24 awr cyn i'r heddlu benderfynu a ddylid eich **cyhuddo**, heblaw eich bod yn cael eich cyhuddo o drosedd ddifrifol.

Safon heddlu
# 9

## Mae gennyf yr hawl i gyngor rhad ac am ddim, annibynnol gan gyfreithiwr a dylai'r heddlu drefnu hyn ar fy nghyfer.

- Os nad ydych yn adnabod cyfreithiwr eisoes, gallwch ofyn am y **cyfreithiwr dyletswydd**.
- Bydd y cyfreithiwr yn dod i orsaf yr heddlu ond gallai siarad a chi ar y ffôn yn gyntaf.
- Mae'r cyfreithiwr yn gweithio i chi (nid i'r heddlu). Bydd yn sicrhau eich bod yn gwybod eich hawliau, yn esbonio i chi beth sy'n digwydd ac yn rhoi cyngor cyfreithiol i chi.
- Mae'r cyngor cyfreithiol yn rhad ac am ddim: nid oes angen i chi dalu dim am gyngor cyfreithiol.
- Byddwch yn gallu siarad â'r cyfreithiwr yn breifat, heb eich **oedolyn priodol** os dymunwch chi.
- Os oes gennych gyfreithiwr, mae'n rhaid iddynt fod gyda chi pan fydd yr heddlu yn gofyn cwestiynau i chi am y drosedd rydych yn cael eich cyhuddo ohoni.



## Safon heddlu 10

### Rhoddir cymorth ychwanegol i mi â chyfathrebu os oes ei angen arnaf i.

- Gall eich **oedolyn priodol** helpu i chi ddeall beth mae'r heddlu yn ei ddweud yn eich cyfweliad heddlu. Gall hefyd helpu i sicrhau bod yr heddlu yn deall yr hyn rydych yn ei ddweud.
- Gallwch hefyd gael cymorth ychwanegol gan rywun o'r enw **cyfryngwr**, sy'n annibynnol o'r heddlu. Eu gwaith yw eich helpu chi a'r heddlu ddeall beth mae'r llall yn ei ddweud.
- Os ydych yn siarad iaith wahanol i'r Saesneg neu'r Gymraeg, gall yr heddlu drefnu i rywun sy'n siarad eich iaith (cyfieithydd i'ch helpu i deall yr hyn mae pawb yn ei ddweud ac i siarad â chi. Gallai'r cyfieithydd fod gyda chi mewn person, ar alwad fideo neu ar alwad ffôn.

## Safon heddlu 11

### Os byddaf yn cael cynnig datrysiad y tu allan i'r llys, byddaf yn cael fy helpu i ddeall bath mae hyn yn ei olygu.

- Mae **datrysiad y tu allan i'r llys** yn golygu nad oes rhaid i chi fynd i lys os ydych yn derbyn y datrysiad.
- Mae mathau gwahanol, gyda rheolau gwahanol a phethau y bydd angen i chi eu gwneud.
- Mae'n rhaid i **oedolyn priodol** fod gyda chi os cynigir **rhybuddiad ieuenctid** neu **rybuddiad ieuenctid amodol** i chi.
- Dylai'r heddlu esbonio i chi beth sydd ynghlwm â'ch datrysiad y tu allan i'r llys, a beth fydd yn digwydd os nad ydych yn glynu at unrhyw reolau.
- Gall datrysiadau y tu allan i'r llys ymddangos ar eich record troseddol yn y dyfodol. Gallwch ofyn i **gyfreithiwr** neu'ch oedolyn priodol am gyngor ar ai'r datrysiad y tu allan i'r llys yw'r opsiwn gorau i chi.

Safon heddlu
12

## Os wyf yn cael fy nghyhuddo â throsedd, bydd yr heddlu yn esbonio beth sy'n digwydd nesaf ac unrhyw reolau y mae'n rhaid i mi eu dilyn hyd y cyrhaeddaf y llys.

- Os ydych yn cael eich **cyhuddo** o drosed, bydd angen i chi fynd i'r llys.
- Tra'n aros i fynd i lys, mae gennych hawl fel arfer i **fechnïaeth**. Mae mechnïaeth yn golygu eich bod yn gallu gadael ond bydd rhaid i chi fynd i lys ar amser a dyddiad penodedig. Os na fyddwch yn ymddangos yn y llys ar yr amser a'r dyddiad hwnnw, mae hyn yn golygu eich bod yn cyflawni trosedd a gallwch gael eich cyhuddo â throsedd arall.
- Gallai'r heddlu'n rhoi rhai rheolau i chi eu dilyn – er enghraifft, ble mae'n rhaid i chi fyw nes i chi fynd i'r llys, neu bobl nad ydych yn cael cysylltu â nhw. Gallai hyn fod er mwyn eich cadw chi neu eraill yn ddiogel.
- Os nad ydych yn cael eich cyhuddo â throsedd, gallai'r heddlu eich rhyddhau o dan ymchwiliad. Mae hyn yn golygu eich bod yn rhydd i fynd adref ac nad oes rheolau mae angen i chi eu dilyn, ond bydd yr heddlu yn parhau i ymchwilio i'r drosedd maen nhw'n meddwl y gwnaethoch ei chyflawni. Gallent eich **arestio** chi a'ch cyhuddo yn y dyfodol.



Safon heddlu
13

## Os na roddir mechnïaeth i mi gan yr heddlu, byddant yn esbonio'r rhesymau pam a ble byddaf yn aros.

- Gallwch gael eich gwrthod am **fechnïaeth** heddlu os nad yw'r heddlu yn sicr lle rydych chi'n byw neu os ydych wedi cael eich **cyhuddo** â **throsedd** ddifrifol iawn fel llofruddiaeth. Byddant yn esbonio bob amser pam y gwrthodwyd mechnïaeth i chi ac nad ydych yn rhydd i fynd.
- Mae'n rhaid i'ch a**wdurdod lleol** a **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid** geisio canfod man diogel a sefydlog ar eich cyfer (er enghraifft, gyda pherthynas, mewn gofal maeth neu mewn cartref plant). Os na allant ganfod le, yna byddwch yn aros yng ngorsaf yr heddlu. Gelwir hyn yn aros yn nalfa'r **heddlu**.
- Bydd yr heddlu yn esbonio'r rheolau mae'n rhaid i chi eu dilyn a beth fydd yn digwydd os na wnewch chi. Byddant hefyd yn dweud wrthych os ydych wedi dod yn **blentyn sy'n derbyn gofal** dros dro a beth mae hyn yn ei olygu.

Safon heddlu
14

## Os byddaf yn cael fy nghadw yn y ddalfa gan yr heddlu, byddant yn esbonio pa mor hir y bydd hyn yn parhau a beth fydd y camau nesaf.

- Os yw'r heddlu yn penderfynu bod angen i chi aros yn **nalfa'r heddlu**, byddwch yn aros hyd eich **gwrandawiad** llys cyntaf. Bydd hyn fel arfer o fewn 24 awr ohonoch yn cyrraedd gorsaf yr heddlu.
- Byddwch yn cael eich cymryd yn syth o ddalfa'r heddlu i'r llys.
- Mae eich gwrandawiad llys cyntaf yn cael ei alw'n wrandawiad mechnïaeth. Bydd y llys yn penderfynu os gallwch gael eich rhoi ar **fechnïaeth**, eich **cyfeirio** at **lety awdurdod lleol**, neu os dylech aros yn y ddalfa hyd eich gwrandawiad llys nesaf (fel arfer eich **prawf**). Nid yw'r math hwn o ddalfa yr un peth a dalfa'r heddlu, a byddwch yn cael eich lleoli i mewn i'r **ystad ieuenctid diogel**.



## Beth allaf i ei wneud os nad yw'r safonau hynny'n cael eu hateb?

Os ydych yn meddwl nad yw'r safonau hyn wedi cael eu hateb, dylech ddweud wrth yr unigolyn a enwir yn y safon (er enghraifft, y swyddog heddlu), neu gall unrhyw oedolyn sy'n eich cynorthwyo ddweud wrthynt ar eich rhan. Os nad ydych am wneud hyn neu nad ydych yn hapus â'r ymateb rydych yn ei gael, gallwch wneud cwyn.

Mae ffyrdd gwahanol i gwyno a gallwch ddewis pa ffordd sy'n well gennych.

**Cwyno am yr heddlu**

- Siaradwch â'r swyddog dyletswydd yn eich gorsaf heddlu leol.
- Ffoniwch **101** i wneud cwyn dros y ffôn.
- Anfonwch gŵyn at **Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu**. Nid ydynt yn rhan o'r heddlu ac maen nhw'n gwneud eu holl benderfyniadau yn annibynnol. Darllenwch ragor am y broses gwynion, neu anfonwch gŵyn trwy eu gwefan.

**Cwyno am eich cyfreithiwr**

- Gallwch gwyno am eich cyfreithiwr i'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr.

**Rhagor o gymorth**

- Ffoniwch linell gyngor y **Comisiynydd Plant**. Os ydych chi yn Lloegr, y rhif yw **0800 528 0731**, neu gallwch gysylltu â nhw ar eu gwefan. Os ydych chi yng Nghymru, y rhif yw **0808 801 1000**, neu gallwch chi gysylltu â nhw ar eu gwefan.
- Holwch eich **Swyddfa Cyngor ar Bopeth** leol am gyngor. Os ydych chi yn Lloegr, gallwch roi galwad ar **0800 144 8848**. Os ydych chi yng Nghymru, gallwch roi galwad ar **0800 702 2020**.

# Beth sy’n digwydd os wyf yn mynd i’r llys?





Os ydych wedi cael eich **cyhuddo** â throsedd, byddwch fel arfer yn mynd i **lys ieuenctid**. Bydd naill ai **farnwr** neu **ynadon** a fydd yn gwneud penderfyniadau am eich achos.


Os ydych wedi cael eich cyhuddo â throsedd ddifrifol (fel llofruddiaeth), byddwch wedyn yn mynd ymlaen i **Lys y Goron**. Bydd **rheithgor** yn cynnwys pobl gyffredin fydd yn penderfynu os ydych wedi cyflawni'r drosedd rydych yn cael eich cyhuddo ohoni. Gwaith y barnwr, ynadon a rheithgor yw gwrando ar ochr pawb o'r stori a gwneud penderfyniad sy'n deg.

Mae safonau'r llys isod yn esbonio sut y dylech gael eich trin cyn, yn ystod ac ar ôl i chi fynd i lys.

Safon llys
1

## Dylid rhoi cymorth i mi baratoi ar gyfer mynd i'r llys.


- Dylid dweud wrthych mor gynnar â phosibl pryd bydd angen i chi fynd i'r llys.
- Dylai'ch **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid** (YJS) gysylltu â chi a'ch rhieni neu ofalwyr cyn eich ymddangosiad llys ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Dylent sicrhau eich bod yn gwybod ble i fynd, pa amser i fod yno a beth fydd yn digwydd pan gyrhaeddwch chi'r llys.
- Os ydych chi'n mynd i'r llys o'r **ddalfa**, bydd eich YJS, **cyfreithiwr** neu swyddog dalfa yn rhoi'r wybodaeth hon i chi. Byddant yn helpu sicrhau eich bod chi a'ch rhieni neu ofalwyr yn gallu cyrraedd y llys a helpu trefnu sut y byddwch yn teithio yno.
- Gall eich cyfreithiwr drefnu i chi ymweld â'r llys a gweld sut mae'n edrych cyn eich dyddiad llys er mwyn i chi wybod beth i'w ddisgwyl.
- Os byddwch yn cael eich cymryd i'r llys trwy gludiant diogel o orsaf yr heddlu, ni ddylech deithio gydag oedolion o garcharorion a dylech fod yn y cerbyd am yr amser byrraf posibl.



Safon llys
2

## Bydd gennyf gyfreithiwr yn y llys fydd wrth fy ochr a bydd yn sefyll drosof i.

- Mae gennych yr hawl i gyngor cyfreithiol am ddim, gan rywun sy'n rhoi eich budd pennaf yn gyntaf.
- Mae eich **cyfreithiwr** yn gweithio drosoch chi, nid unrhyw un arall yn ystafell y llys. Bydd yn gwrando arnoch chi ac yn eich cymryd o ddifrif. Bydd yn onest gyda chi a bydd yn sicrhau eich bod yn deall beth sy'n digwydd.
- Byddwch yn gallu siarad â'ch cyfreithiwr cyn, yn ystod ac ar ôl y llys. Dylai staff y llys ganfod rhywle y gallwch chi siarad yn breifat.
- Os nad oes gennych chi gyfreithiwr a bod eisiau un arnoch chi bydd **cyfreithiwr dyletswydd** yn y llys sy'n gallu eich cynorthwyo yn y llys.
- Pan fyddwch yn ystafell y llys, dylech chi fod yn eistedd yn agos at eich cyfreithiwr fel y gallwch siarad â nhw os oes angen i chi.



Safon llys
3

## Dylwn i allu eistedd nesaf at fy rheini neu ofalwyr yn y llys.

- Dylech chi allu eistedd gyda'ch rhieni, gofalwyr neu oedolyn arall yn ystafell y llys.
- Os ydych chi'n cael eich dwyn i'r llys yn gwisgo cyffion dwylo, gall eich **cyfreithiwr** ofyn i chi ddod allan o'r **doc**, (yr ardal ddiogel) ac eistedd nesaf at eich rhieni, gofalwyr neu **oedolyn priodol**.
- Os yw'r **ynadon** neu'r **barnwr** yn bryderus am eich diogelwch neu ddiogelwch eraill, gallant benderfynu bod angen i chi barhau i eistedd yn y doc a byddant yn esbonio eu rhesymau.

Safon llys
4

## Byddaf yn cael cais am fechnïaeth os wyf wedi cael fy nghyhuddo â throsedd..


- Dylai **gwrandawiad mechnïaeth** ddigwydd o fewn 24 awr ohonoch yn cael eich **cyhuddo** odrosedd. Gall hyn olygu eich bod yn cael eich cymryd i lys oedolion yn hytrach na **llys ieuenctid**, ond dylai fod rhywun yno sy'n gwybod sut mae llysoedd ieuenctid yn gweithio.
- Dylai rhywun o YJS fod yno i siarad â chi am fechnïaeth a dysgu am eich sefyllfa fel y gallant helpu'r llys i wneud **penderfyniad mechnïaeth**.
- Mae tri canlyniad posibl i chi yn eich gwrandawiad mechnïaeth: mechnïaeth, **cyfeirio i lety awdurdod lleol** neu **gyfeirio at ddalfa ieuenctid**.
- Os ydych yn cael eich rhoi ar fechnïaeth, bydd y **barnwr** neu'r **ynad** yn dweud wrthych beth fydd yn digwydd i chi a pha awdurdod lleol sy'n gyfrifol amdanoch nawr.

Safon llys
5

## Rhoddir cymorth i mi ddeall beth sy'n cael ei ddweud yn y llys ac i sicrhau bod eraill yn y llys yn gallu fy neall i.

- Os ydych yn siarad iaith wahanol i'r Saesneg neu'r Gymraeg, gall staff y llys drefnu i rywun sy'n siarad eich iaith (cyfieithydd) eich helpu i ddeall beth mae pawb yn ei ddweud ac i siarad ar eich rhan.
- Os oes angen cymorth arnoch i gyfathrebu am unrhyw reswm, er enghraifft oherwydd bod gennych anabledd, anhawster dysgu, neu eich bod yn niwroamrywiol (er enghraifft, os oes gennych awtistiaeth neu ADHD), gall eich **cyfreithiwr** ofyn i'r **barnwr** am **gyfryngwr** sy'n annibynnol i'r llys. Eu gwaith yw eich helpu chi a'r bobl yn y llys i ddeall beth mae'r llall yn ei ddweud.
- Bydd yr oedolion yn ystafell y llys yn siarad yn eglur a bydd y barnwr neu **ynadon** yn gwirio i sicrhau eich bod yn deall beth sydd wedi cael ei ddweud.
- Byddwch yn gallu gofyn unrhyw gwestiynau a gallwch ofyn i gymryd saib os oes angen un arnoch.





Safon llys **6**

## Gofelir am fy iechyd a meddwl a lles tra byddaf yn y llys.

- Gall gweithiwr iechyd arbenigol gyfarfod â chi yn y llys os oes unrhyw un yn pryderu am eich iechyd meddwl neu les. Mae'r gweithiwr iechyd yn rhoi cyngor ar sut i gynorthwyo pobl orau ag unrhyw anghenion iechyd.

Safon llys **7**

## Bydd y barnwr neu ynadon yn fy helpu i ddeall beth mae eu penderfyniad yn ei olygu i mi.

- Bydd y **barnwr** neu **ynadon** yn gwirio eich bod yn deall y penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud am eich achos.
- Bydd y barnwr neu'r ynadon yn esbonio unrhyw beth sydd angen i chi ei wneud fel rhan o'ch **mechnïaeth**, **cadw yn y ddalfa** neu **ddedfryd**, gan gynnwys unrhyw reolau mae angen i chi eu dilyn (gelwir y rhain yn amodau). Byddant hefyd yn esbonio beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn gwneud yr hyn maen nhw wedi gofyn i chi ei wneud.

Safon llys
8

## Os yw'r llys wedi fy remandio i'r ddalfa, bydd y rheswm dros y penderfyniad yn cael ei nodi'n ysgrifenedig a byddaf yn cael cymorth i ddeall.

- Mae cael eich **cadw yn y ddalfa** yn golygu bod angen i chi aros mewn **llety diogel** hyd eich ymddangosiad llys nesaf, ac yn aml hyd bod eich **prawf** wedi dod i ben.
- Mae'n rhaid i'r **barnwr** neu'r **ynadon** esbonio hyn i chi'n eglur. Pan fyddwch yn y ddalfa, bydd **staff y ddalfa** yn rhoi copi ysgrifenedig i chi o esboniad y barnwr neu'r ynadon naill ai trwy e-bost neu ar bapur.
- Bydd eich YJS yn gallu ysgrifennu **cais mechnïaeth** i chi tra'ch bod yn y ddalfa a gall eich **cyfreithiwr** ofyn am fechnïaeth nifer o weithiau. Mae'n rhaid i'r llys adolygu'r achos os ydych yn y ddalfa yn aros am eich prawf am gyfnod penodol o amser.



Safon llys
9

## Byddaf yn cael cymorth gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a fy nghyfreithiwr i ddeall beth sy'n digwydd ar ôl y llys.

- Ar ôl i chi fod yn y llys, bydd y YJS a'ch **cyfreithiwr** yn gwirio eich bod yn deall penderfyniad y **barnwr** neu **ynadon**.
- Os ydych wedi cael eich canfod yn ddieuog neu y rhoddwyd rhyddhad diamod i chi, rydych yn rhydd i fynd adref ac nid oes angen i chi ddilyn unrhyw reolau.
- Os oes **gorchymyn llys** wedi cael ei roi i chi nad yw'n cynnwys y **ddalfa**, bydd eich YJS yn trefnu i gyfarfod â chi a bydd yn dweud wrthych lle mae angen i chi fynd ar gyfer eich apwyntiadau.
- Os oes **mechnïaeth** amodol wedi cael ei roi i chi neu'ch bod wedi cael eich **traddodi i lety awdurdod lleol**, bydd eich YJS yn sicrhau eich bod yn adnabod unrhyw amodau y bydd angen i chi lynu atynt a gallant drafod amserlen ar gyfer **goruchwyliaeth**.
- Os yw'r barnwr neu'r ynadon yn penderfynu bod angen i chi fod yn y ddalfa, fe'ch cymerir o ystafell y llys i **gelloedd** y llys gan staff diogelwch.
- Byddwch chi'n aros yng nghelloedd y llys hyd bod cludiant yn cyrraedd i fynd â chi i'ch **lleoliad** dalfa. Dylid dweud wrthych chi lle rydych chi'n mynd a dylech chi allu alw eich teulu os nad ydynt wedi bod yn y llys. Dylech chi gael seibiau lluniaeth a thoiled ar y daith.
- Bydd eich cyfreithiwr a YJS y dod i siarad â chi tra'ch bod yn aros i fynd i'ch lleoliad.



## Beth allaf i ei wneud os nad yw'r safonau hynny'n cael eu hateb?

Os ydych yn meddwl nad yw'r safonau hyn wedi cael eu hateb, dylech ddweud wrth yr unigolyn a enwir yn y safon, neu gall unrhyw oedolyn sy'n eich cynorthwyo dweud wrthynt ar eich rhan. Os nad ydych am wneud hyn neu nad ydych yn hapus â'r ymateb rydych yn ei gael, gallwch wneud cwyn.

Mae ffyrdd gwahanol i gwyno a gallwch ddewis pa ffordd sy'n well gennych.


There are different ways to complain and you can choose which way you prefer.

- Siaradwch â'ch **cyfreithiwr** (os oes gennych un).
- Cysylltwch â'r YJS sy'n eich cynorthwyo.
- Os ydych yn meddwl bod y llys wedi bod yn anghywir i'ch canfod yn euog neu nad ydych yn hapus â'ch **dedfryd**, mae angen i chi ddilyn proses **'apêl'** ar wahân. Gall eich cyfreithiwr roi cyngor i chi ar hyn.
- Holwch eich **Swyddfa Cyngor ar Bopeth** leol am gyngor. Os ydych chi yn Lloegr, gallwch roi galwad ar **0800 144 8848**. Os ydych chi yng Nghymru, gallwch roi galwad ar **0800 702 2020**.
- Gallwch linell gyngor y **Comisiynydd Plant**. Os ydych chi yn Lloegr, y rhif yw **0800 528 0731**, neu gallwch gysylltu â nhw ar eu gwefan. Os ydych chi yng Nghymru, y rhif yw 0808 801 1000, neu gallwch chi gysylltu â nhw ar eu gwefan.
- Gallwch gwyno am eich cyfreithiwr i Awdurdod Rheoleiddio'r Cyfreithwyr neu Fwrdd Safonau'r Bar.

Darllenwch fwy am y broses gwynion ar gyfer eich profiad yn y llys.

# Sut fydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn fy helpu yn y gymuned?





## Mae'r **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid** yn rhan bwysig iawn o'r system cyfiawnder ieuenctid. Maen nhw hefyd yn cael eu galw weithiau yn Dimau Troseddu Ieuenctid (YOT).

Mae timau YJS yn cynnwys pobl wahanol, gan gynnwys **gweithwyr cymdeithasol**, arbenigwyr addysg, a therapyddion lleferydd ac iaith. Gallwch gyfarfod â sawl un ohonyn nhw am bethau gwahanol, ond bydd gennych un **rheolwr achos** a fydd yn brif bwynt cyswllt i chi. Bydd yn dod i'ch adnabod ac yn gwneud cynllun gyda chi a gweithwyr proffesiynol eraill i'ch cynorthwyo chi.

Mae'r adran hon yn esbonio beth i'w ddisgwyl o'ch tîm YJS os yw'r llys wedi rhoi **mechnïaeth** i chi, **remánd cymunedol** neu **ddedfryd gymunedol**.

Mae remánd cymunedol hefyd yn cael ei adnabod fel remánd i lety awdurdod lleol. Gall hyn fod yn byw gartref, gyda pherthynas, mewn gofal maeth neu mewn cartref plant. Mae rheolau fel arfer, megis lleoedd na allwch fynd iddynt neu bobl na chewch siarad â nhw.

Mae dedfryd gymunedol yn **orchymyn llys** â rheolau y bydd angen i chi eu dilyn am swm penodol o amser.

Gall timau YJS hefyd eich helpu os ydych wedi dod i gysylltiad â'r heddlu, os ydych chi wedi derbyn **datrysiad y tu allan i'r llys** neu os ydych ar fechnïaeth yn aros i fynd i'r llys.

Mae'r safonau YJS isod yn esbonio sut y dylech gael eich trin gan eich tîm YJS yn y gymuned.

## Safon YJS 1

### Byddaf yn gwybod pwy yw fy rheolwr achos a sut i gysylltu ag ef/hi.

- Dywedir enw'ch **rheolwr achos** wrthych a phryd a ble y bydd angen i chi gyfarfod ag ef/hi nesaf. Bydd yn esbonio pa mor aml y byddwch yn cyfarfod a sut i gysylltu ag ef/hi.
- Bydd am eich gweld wyneb yn wyneb. Gall hyn fod yn swyddfa'r YJS, eich cartref, neu rywle arall fel caffi. Gall hefyd anfon neges, gwneud galwad fideo neu alwad llais.

## Safon YJS 2


### Rhoddir cymorth i mi ddeall rôl y tîm YJS a sut y byddaf yn gweithio gyda nhw.

- Bydd eich **rheolwr achos** yn esbonio'n eglur pam ei fod/bod yn cymryd rhan a beth fydd yn digwydd tra'i fod/bod yn gweithio gyda chi.
- Bydd yn esbonio'r gofynion gwahanol a pha bethau sy'n orfodol (beth mae'n rhaid i chi ei wneud) a pha rai sy'n wirfoddol (beth y gallwch ddewis eu gwneud).
- Bydd eich rheolwr achos yn eich gweld ar ddyddiau ac adegau wedi'u cytuno - gelwir hyn yn **oruchwyliaeth**. Bydd yn ceisio ei wneud mor hawdd â phosibl i chi gyrraedd eich apwyntiadau. Dylech chi ddweud wrth eich rheolwr achos os ydych chi'n bryderus am sut i dalu am eich teithio.
- Bydd eich rheolwr achos yn esbonio beth fydd yn digwydd os nad ydych yn mynychu'ch apwyntiadau neu nad ydych yn gwneud y pethau a ofynnir ohonoch. Gallai hyn gynnwys yr heddlu yn cysylltu â chi eto neu fynd yn ôl i'r llys.

Safon YJS 3

## Dylai fy rheolwr achos ddeall fy anghenion unigol a dylai helpu pobl eraill i'w deall hefyd.

- Bydd eich **rheolwr achos** yn treulio amser yn dod i'ch adnabod. Bydd am wybod mwy am yr hyn sydd wedi digwydd a pham, beth a phwy sy'n bwysig yn eich bywyd, ac os oes gennych unrhyw ddiddordebau. Bydd am ymweld â chi gartref i ddeall eich sefyllfa a chyfarfod â'ch rhieni neu ofalwyr.
- Bydd eich rheolwr achos yn eich annog i rannu'ch stori yn eich ffordd eich hun. Gallai hynny fod trwy dynnu llun, ysgrifennu neu ddim ond siarad.
- Gall ofyn i weithwyr proffesiynol eraill gyfarfod â chi os yw'n meddwl y byddai hynny o gymorth.
- Bydd eich rheolwr achos yn ysgrifennu adroddiad i helpu'r llys wneud penderfyniadau am eich dyfodol.
- Os nad ydych yn dilyn y rheolau a roddwyd i chi fel rhan o'ch **mechnïaeth** neu **orchymyn llys**, yna gall eich rheolwr achos gychwyn achos toriad. Mae hon yn broses ffurfiol. Bydd yn gofyn beth sydd wedi digwydd ac yn eich cynorthwyo os oes angen i chi fynd yn ôl i'r llys.



Safon
YJS
4

## Byddaf yn cymryd rhan mewn datblygu cynllun i fy helpu i gyflawni nodau yn y dyfodol.

- Bydd eich rheolwr achos yn gwneud cynllun i'ch cynorthwyo chi. Bwriedir i'r cynllun hwn roi'r cyfle gorau posibl i chi o gyflawni'ch nodau ac i'ch helpu i osgoi torri'r gyfraith yn y dyfodol.
- Bydd eich rheolwr achos yn rhannu'r cynllun â chi yn ysgrifenedig, fel lluniau, neu fel rhywbeth y gallwch wrando arno yn nes ymlaen.
- Gallwch ofyn i'ch rheolwr achos newid y cynllun os oes rhywbeth sydd ddim yn gweithio i chi.
- Bydd eich rheolwr achos yn eich helpu i ddeall y cynllun ac yn ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych. Bydd hefyd yn esbonio beth mae cael record troseddol yn ei olygu i chi a phryd y gallai fod angen i chi ddweud wrth gyflogwyr neu **ddarparwyr addysg** posibl amdano.
- Gofynnir i'ch rhieni neu ofalwyr gymryd rhan mewn penderfynu ar y cynllun.



Safon
YJS
5

## Rhoddir cymorth i mi ddeall beth sy'n digwydd ar ddiwedd fy ngorchymyn llys.

- Os yw'ch **gorchymyn llys** yn dod i ben, bydd eich **rheolwr achos** yn siarad â chi am ba gymorth a chefnogaeth all fod eu hangen arnoch i'ch helpu i osgoi torri'r gyfraith eto. Gallai hyn gynnwys cymorth lles parhaol os oes angen.
- Gall argymell cael cymorth gan sefydliadau neu wasanaethau eraill, megis mentor cymorth ieuenctid.
- Os ydych yn cytuno â'r hyn mae'n ei awgrymu, bydd yn trefnu hyn ar eich cyfer.



Safon YJS
6

## Os wyf yn troi'n 18 yn fuan, bydd fy rheolwr achos yn trefnu fy symudiad i'r gwasanaeth prawf oedolion.

- Os ydych yn agosáu at 18 oed ond heb gwblhau eich **dedfryd** neu amser ar **fechnïaeth** neu **remand**, gall fod rhaid i chi symud ar draws i'r **gwasanaeth prawf oedolion**. Bydd y newid hwn yn cael ei gynllunio'n ofalus ac yn cael ei drafod â chi.
- Bydd eich **rheolwr achos** yn rhannu gwybodaeth bwysig â'r gweithiwr prawf, felly byddant yn deall popeth amdanoch chi ac â beth mae angen cymorth arnoch. Bydd hyn yn cynnwys eich gofal iechyd, anghenion addysgol arbennig neu unrhyw gymorth arall a all fod ei angen arnoch.
- Byddwch yn gallu cyfarfod â'ch gweithiwr prawf newydd cyn y newid fel y gallwch ddod i'w adnabod/hadnabod.





## Beth allaf i ei wneud os nad yw'r safonau hynny'n cael eu hateb?

Os ydych yn meddwl nad yw'r safonau hyn wedi cael eu hateb, dylech ddweud wrth yr unigolyn a enwir yn y safon, neu gall unrhyw oedolyn sy'n eich cynorthwyo dweud wrthynt ar eich rhan. Os nad ydych am wneud hyn neu nad ydych yn hapus â'r ymateb rydych yn ei gael, gallwch wneud cwyn.

Mae ffyrdd gwahanol i gwyno a gallwch ddewis pa ffordd sy'n well gennych.

- Siaradwch â'ch **rheolwr achos** YJS.
- Gofynnwch i siarad â rheolwr eich YJS.
- Cysylltwch ag adran gwynion eich **awdurdod lleol**.
- Gallwch linell gyngor y **Comisiynydd Plant**. Os ydych chi yn Lloegr, y rhif yw **0800 528 0731**, neu gallwch gysylltu â nhw ar eu gwefan. Os ydych chi yng Nghymru, y rhif yw **0808 801 1000**, neu gallwch chi gysylltu â nhw ar eu gwefan.
- Gallwch gwyno am eich **cyfreithiwr** i Awdurdod Rheoleiddio'r Cyfreithwyr.

# Beth sy'n digwydd tra mod i yn y ddalfa ieuenctid?





Os yw'r llys yn penderfynu eich rhoi ar **remánd** neu'ch **dedfrydu** chi i'r **ddalfa**, gofelir amdanoch gan y staff yn yr **ystâd ieuenctid diogel**. Os ydych chi yn y ddalfa ar remánd, byddwch yn aros yn y ddalfa hyd yr ewch yn ôl i'r llys ar gyfer eich prawf neu ar gyfer dedfrydu. Os ydych yn cael eich dedfrydu i'r ddalfa, bydd y llys yn dweud wrthych pa mor hir fydd angen i chi aros yno.

Byddwch chi'n aros naill ai mewn:

- sefydliad troseddwyr ifanc (YOI) – safle mwy ag unedau byw lluosog, a 30 i 60 o blant a phobl ifanc yn aros ym mhob uned
- canolfan hyfforddi ddiogel (STC) - safle ag unedau byw lluosog, gyda 4 i 8 o blant a phobl ifanc yn aros ym mhob uned
- cartref diogel i blant (SCH) - safle gyda 5 i 20 o blant a phobl ifanc yn aros ym mhob cartref
- ysgol ddiogel - safle ag unedau byw lluosog, a  hyd at 6 o blant a phobl ifanc yn aros ym mhob uned

Dylech chi ddweud wrth eich **rheolwr achos** Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (YJS), **staff y ddalfa**, **gweithiwr cymdeithasol** neu **gynghorwr personol** pe byddech yn **ofalwr** neu bod gennych unrhyw gyfrifoldebau gofalu cyn mynd i mewn i'r ddalfa. Gallant sicrhau bod y bobl rydych chi'n gofalu amdanynt yn parhau i gael y cymorth neu gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.

Mae safonau'r ddalfa isod yn esbonio sut y dylech gael eich trin tra'ch bod yn y ddalfa.

Safon y ddalfa 1

## Byddaf yn cael cymorth i ddeall pam fy mod yn cael fy rhoi yn y ddalfa, am ba mor hir a ble y byddaf yn aros.

- Bydd eich **rheolwr achos** YJS a'ch **cyfreithiwr** yn esbonio beth sy'n digwydd cyn i chi adael adeilad y llys.
- Bydd **Gwasanaeth Dalfa'r Ieuenctid** yn penderfynu ble byddwch yn aros, gyda chyngor gan eich rheolwr achos YJS.
- Bydd y penderfyniad yn seiliedig ar ble rydych chi'n byw, eich oedran, rhyw, a ydych wedi bod yn y **ddalfa** o'r blaen, eich diogelwch, eich anghenion iechyd, eich anghenion addysg, eich lles a pha leoedd sydd ar gael.
- Gallwch chi, eich rhieni, gofalwyr, neu'ch cyfreithiwr **apelio** yn erbyn y penderfyniad os nad ydych yn cytuno ag ef. Mae hyn yn golygu yr edrychir ar y penderfyniad eto.

Safon y ddalfa 2

## Byddaf yn gwybod os a phryd bydd angen i mi fynd yn ôl i'r llys a bydd staff y ddalfa yn trefnu i mi gyrraedd yno.

- Os ydych yn y **ddalfa** ar **remánd**, bydd y **barnwr** neu'r **ynadon** yn penderfynu pryd bydd angen i chi ddod yn ôl i'r llys.
- Bydd eich **rheolwr achos** YJS yn dweud dyddiad eich **gwrandawiad** llys wrthych mor gynnar â phosibl a bydd yn dweud wrthych os gallwch ailymgeisio am **fechnïaeth** ar unrhyw adeg.
- Byddwch yn gallu siarad â'ch **cyfreithiwr** am beth sy'n digwydd.
- Mae'n rhaid i **staff y ddalfa** eich cael i'r llys mewn pryd. Byddant yn trefnu i chi deithio mewn fan o'r ddalfa i'r llys.
- Mewn rhai achosion, gallech chi gael eich gwrandawiad llys trwy alwad fideo, heb adael y ddalfa.

Safon
y ddalfa
3

## Byddaf yn cyfarfod â'r bobl fydd yn fy nghynorthwyo tra byddaf yn y ddalfa, a byddant yn gwneud cynlluniau i gefnogi fy addysg, iechyd a lles..

- Mae'n bwysig eich bod yn teimlo'n gyfarwydd â'ch amgylcheddau. Byddwch yn cael gwybodaeth cyn gynted ag y byddwch yn cyrraedd, ac wedyn yn derbyn cynefino llawnach o fewn eich cwpl wythnosau cyntaf yn y ddalfa. Mae rheolau i'ch cadw chi ac eraill yn ddiogel, a bydd staff yn esbonio'r rheolau hyn i chi.
- Gallech chi aros ar uned gynefino yn ystod yr amser hwn, sy'n ardal ar wahân i helpu pobl newydd i ymgartrefu.
- Dylech chi gael cymorth ychwanegol â chyfathrebu os oes ei angen arnoch - er enghraifft, os nad y Saesneg yw eich iaith gyntaf, neu fod gennych anabledd.
- Byddwch chi'n cael asesiad iechyd a bydd nyrs yn eich holi am eich anghenion iechyd. Bydd yn defnyddio'ch atebion i helpu gwneud cynllun gofal i chi.
- Byddwch yn cyfarfod yn rheolaidd ag aelod staff arweiniol fydd yn eich cynorthwyo ac yn gofalu amdanoch yn ystod eich arhosiad.
- Bydd eich rheolwr achos YJS, eich **gweithiwr cymdeithasol** neu **gynghorwr personol** (os oes gennych un) yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â chi.
- Rhoddir cymorth i chi gan aelodau eraill o staff o dimau gwahanol, megis iechyd, **caplaniaeth**, diogelu neu **gamddefnyddio sylweddau**. Bydd pob un yn esbonio beth yw eu rôl.
- Bydd y bobl sy'n eich cefnogi yn deall eich stori a dylent ddod i wybod am eich bywyd, unrhyw broblemau rydych yn eu hwynebu a'r cymorth y gallai fod ei angen arnoch.
- Ar ddiwedd y cynefino, rhoddir gwybodaeth i chi am eich rhaglen ddyddiol ac wythnosol.

Safon
y ddalfa
4

## Bydd cynllunio ar gyfer beth sy'n digwydd pan adawaf y ddalfa yn dechrau yn syth ar ddechrau fy arhosiad.

- Mae eich helpu i baratoi ar gyfer gadael y **ddalfa** yn bwysig iawn. Weithiau gelwir hyn yn rhyddhau neu ailgynefino.
- Tra byddwch yn y ddalfa, bydd gennych chi **weithiwr ailgynefino**. Gall hefyd gael ei alw'n **rheolwr achos**. Bydd yn cyfarfod â chi o fewn 10 niwrnod i chi gyrraedd a bydd yn dechrau cynllunio ar gyfer beth sy'n digwydd pan fyddwch yn gadael y ddalfa.
- Bydd eich gweithiwr ailgynefino yn gweithio gyda chi, eich rheolwr achos YJS, eich **gweithiwr cymdeithasol**, neu **gynghorwr personol**, os oes gennych un) i ddatblygu'r cynllun. Bydd y cynllun yn cwmpasu'ch holl anghenion i gynorthwyo eich ailgynefino, gan gynnwys anghenion iechyd, cynlluniau ar gyfer addysg neu gyflogaeth, a ble byddwch chi'n byw ar ôl y ddalfa.



Safon
y ddalfa
5

## Bydd gennyf le cyfforddus i gysgu, rhywle y gallaf ymolchi a mynediad at lyfrau mewn llyfrgell.

- Pan gyrhaeddwch chi, rhoddir taith i chi i'ch helpu i ddod i adnabod eich amgylchoedd.
- Bydd gennych eich ystafell wely eich hun gyda gwely, cynfasau gwely, gwres a golau.
- Bydd gennych fynediad rheolaidd at gawod neu faddon. Gall y gawod fod yn eich ystafell wely neu ar wahân i'ch ystafell wely, neu bydd gennych doiled a sinc yn eich ystafell.
- Rhoddir pethau i chi gadw'ch hun yn lân, megis siampŵ am ddim. Gallwch ofyn am bethau sy'n gweddu i'ch gwallt a'ch croen.
- Gallwch ofyn am doriad gwallt os ydych am gael un.
- Gallwch ofyn i ddefnyddio'r llyfrgell neu ddarllen llyfrau. Gall mynediad i'r llyfrgell fod yn rhan o'ch amserlen addysg.



Safon y ddalfa 6

## Byddaf yn gallu treulio amser allan o fy ystafell.

- Byddwch yn gallu treulio amser allan o'ch ystafell gyda phobl eraill. Gall y swm o amser fod yn wahanol yn dibynnu ar ble rydych yn aros a'ch anghenion unigol.
- Bydd addysg ac ymarfer fel arfer yn digwydd y tu allan i'ch ystafell, a bydd ardaloedd a rennir hefyd lle gallwch chi dreulio amser gydag eraill.
- Bydd gennych fynediad at gampfa neu ardal y tu allan i'ch helpu i gadw'n iach. Gallai hyn fod yn rhan o'ch amser allan o'ch ystafell neu fel rhan o'ch addysg gorfforol yn chwarae gemau.

Safon y ddalfa 7

## Rhoddir eitemau gofal personol i mi i ofalu am fy hun a rhoddir rhywfaint o arian i mi i brynu eitemau ychwanegol sydd eu hangen arnaf.

- Ar eich noson gyntaf, rhoddir papur ysgrifennu, deunyddiau ysgrifennu, pethau ymolchi (gan gynnwys cynhyrchion glanweithdra os oes eu hangen arnoch), dillad glân a byrbrydau i chi Mae rheolau gwahanol ynghylch pa ddillad i'w gwisgo yn dibynnu ar ble rydych chi'n aros, a bydd y rhain yn cael eu hesbonio i chi.
- Os ydych yn mynd yn brin o unrhyw gyflenwadau, gallwch ofyn am ragor.
- Rhoddir credyd ffôn i chi (lle'n berthnasol) a rhywfaint o arian ar ddechrau eich arhosiad er mwyn i chi allu prynu eitemau ychwanegol y gall fod eu hangen arnoch.

Safon
y ddalfa
8

## Byddaf yn gwybod pa mor aml y gallaf weld neu siarad â theulu neu ffrindiau tra byddaf yn y ddalfa.

Mae'n bwysig eich bod yn gallu cadw mewn cysylltiad â theulu, ffrindiau a phobl eraill yn eich bywyd (er enghraifft, eich **gweithiwr cymdeithasol** neu **gynghorwr personol**) tra byddwch chi yn y **ddalfa**.

**Galwadau ffôn**

- O fewn dwy awr i chi gyrraedd, caniateir i chi alw rhywun a dweud wrthynt ble rydych chi pe na allech chi alw cyn i chi gyrraedd. Os byddwch yn cyrraedd yn hwyr yn y nos, gellir gofyn i chi aros hyd y bore canlynol.
- Mae gan bob safle ei reolau ei hun am faint o alwadau y gallwch eu gwneud a'u derbyn, a dywedir wrthych beth yw'r rhain yn ystod eich **cynefino**. Mewn rhai llety diogel mae ffôn yn eich ystafell y gallwch ei ddefnyddio i wneud y galwadau hyn.
- Gallwch hefyd ofyn i dderbyn galwad fideo mewn ambell lety diogel.



## Ymweliadau

- Caniateir ymwelydd i chi o fewn tri diwrnod o gyrraedd y **ddalfa**.
- Os ydych yn y ddalfa ar ôl cael eich **dedfrydu**, caniateir ymweliad i chi o leiaf unwaith bob pythefnos, gan gynnwys un ymweliad penwythnos pob pedair wythnos.
- Os ydych yn y ddalfa ar **remand**, gallwch gael ymweliad deirgwaith yr wythnos mewn sefydliad troseddwyr ifanc neu un ymweliad yr wythnos mewn canolfan hyfforddi ddiogel. Gall y nifer o ymweliadau mewn cartref plant diogel neu ysgol ddiogel amrywio.
- Gall yr ymweliadau hyn fod gan eich ffrindiau neu deulu.
- Mewn rhai achosion, gall eich teulu gael cymorth ariannol i ymweld â chi. Gall aelod o'r staff ddweud mwy am hyn pan gyrhaeddwch chi.
- Bydd pob ymweliad yn parhau am o leiaf un awr.
- Gallai swyddogion y ddalfa neu weithwyr allweddol aros gyda chi yn ystod yr ymweliad.
- Fel rhan o'r rheolau, weithiau gall ymweliadau fod yn wahanol os oes ymddygiad neu fater diogelwch sy'n eu gwneud yn risg. Gall fod yn rhaid i chi gael ymweliadau caeëdig lle na chaniateir cysylltiad corfforol i chi â'r person sy'n ymweld. Os ydych yn teimlo bod hyn yn annheg, gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad trwy siarad ag aelod o'r staff neu **eiriolwr** annibynnol.

### Llythyrau

- Byddwch yn gallu anfon o leiaf un llythyr yr wythnos a rhoddir papur a stampiau i chi am ddim. Mae gan bob lle ei reolau ei hun am sawl llythyr y gallwch eu hanfon neu dderbyn, felly gofynnwch i aelod o'r staff os oes gennych unrhyw gwestiynau.
- Mewn rhai lleoedd, caniateir i **staff y ddalfa** ddarllen llythyrau rydych wedi'u hysgrifennu cyn eu hanfon i wirio bod y cynnwys yn briodol. Mae'r gyfraith yn dweud os ydynt yn canfod y cynnwys yn amhriodol, gallant benderfynu peidio ag anfon y llythyr.
- Os hoffech anfon llythyr at rywun, ond yr hoffech gael cymorth i ysgrifennu'r llythyr, gallwch ofyn i aelod o'r staff. Maen nhw hefyd yn gallu eich helpu i ddarllen unrhyw lythyrau rydych yn eu derbyn.
- Mewn ambell lety diogel, mae gennych fynediad at wasanaeth e-bost diogel lle gallwch ysgrifennu at bobl.

Safon
y ddalfa
9


## Darperir bwyd a diod iach i mi yn ystod fy arhosiad yn y ddalfa.

- Byddwch yn derbyn bwyd a diod sy'n dda i'ch iechyd ac yn unol â'ch credoau crefyddol.
- Mewn rhai **llety diogel** gallwch brynu bwyd a diod ychwanegol gan ddefnyddio system archebu a elwir yn 'ffreutur'. Gall arian i brynu pethau gael ei anfon atoch mewn ffyrdd gwahanol. Bydd hyn oll yn cael ei esbonio i chi fel rhan o'ch cynefino.

Safon
y ddalfa
10

## Byddaf yn derbyn gofal iechyd er mwyn i mi allu aros yn heini ac yn iach.

- Bydd tîm iechyd yn gofalu am eich iechyd meddyliol a chorfforol tra’ch bod yn y **ddalfa**.
- Os oes angen cymorth arbenigol arnoch ar gyfer anghenion ychwanegol (er enghraifft, os ydych yn niwroamrywiol), trefnir hyn ar eich cyfer.
- Gofynnir i chi am unrhyw feddyginiaeth a gymerwch. Cynigir unrhyw imiwneiddiadau a brechiadau y gallwch fod wedi eu methu a chymorth â gofal deintyddol, clyw a llygaid.
- Ni chaniateir ysmygu na fepio tra’ch bod yn y ddalfa. Gallwch gael cymorth i roi’r gorau i ysmygu.
- Ni chaniateir i chi gael unrhyw alcohol tra’ch bod yn y ddalfa. Gallwch gael cymorth i roi’r gorau i ysmygu.
- Mae eich cadw’n ddiogel yn flaenoriaeth i bawb. Os oes pryderon am eich diogelwch neu iechyd meddwl, gallai olygu eich bod yn cael eich symud i aros rhywle gwahanol neu gael rhywun yn eich gwylio’n agos.



## Safon y ddalfa 11

## Byddaf yn gallu cael cyngor a chymorth annibynnol tra mod i yn y ddalfa.

- Mae'n bwysig eich bod yn gallu lleisio'ch barn neu bryderon, a chael y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnoch.
- **Eiriolwr** yw rhywun nad yw'n gweithio i wasanaeth y ddalfa a gall roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i chi. Gall eich helpu i leisio pryderon os ydych yn anhapus am rywbeth, os ydych chi'n meddwl eich bod wedi cael eich trin yn annheg, neu os ydych am wneud cwyn am eich profiad yn y **ddalfa**.
- Rhoddir gwybodaeth i chi ar sut i gysylltu ag eiriolwr a gallwch ofyn am eiriolwr ar unrhyw adeg. Gallwch ofyn i **staff y ddalfa** am y wybodaeth hon.
- Mae gennych yr hawl hefyd i gyngor cyfreithiol am ddim gan **gyfreithiwr** tra'ch bod yn y ddalfa. Os nad ydych wedi cadw cysylltiad â chyfreithiwr, gall eiriolwr eich helpu i gysylltu ag un.

## Safon y ddalfa 12

## Bydd fy nghredoau ac arferion crefyddol yn cael eu parchu tra byddaf yn y ddalfa.

- Gall **llety diogel** wahaniaethu, ond mewn llawer mae gennych yr hawl i gyfarfod â'r **caplan** os dymunwch chi. Gall eich helpu i arfer eich ffydd a'ch credoau. Gall eich cynorthwyo hefyd os ydych yn teimlo'n drist, hyd yn oed os nad ydych yn grefyddol.
- Gallwch dreulio amser yn addoli neu'n myfyrio mewn man dynodedig y tu allan i'ch ystafell. Bydd hyn yn cael ei oruchwylio.
- Gallwch ofyn os oes angen i chi addoli neu fyfyrio ar adegau penodol o'r dydd er mwyn i'ch amserlen ganiatáu hyn.
- Byddwch yn gallu dathlu gwyliau crefyddol. Os oes angen eitemau crefyddol arbennig arnoch, fel dillad neu benwisg, byddant yn cael eu darparu.
- Gallwch chi siarad â thîm y gaplaniaeth neu gaplan sy'n ymweld cyn i chi adael y **ddalfa** os dymunwch chi.

Safon y ddalfa 13

## Bydd gennyf fynediad at addysg a chyfleoedd dysgu fydd yn fy mharatoi ar gyfer bywyd ar ôl y ddalfa.

- Dylech chi gael mynediad at o leiaf 15 awr o addysg neu hyfforddiant bob wythnos tra'ch bod yn y **ddalfa**.
- Bydd eich dysgu fel arfer yn cynnwys mathemateg, Saesneg, TG, sgiliau bywyd, a chyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol.
- Bydd eich rhaglen addysg yn cynnwys lles ac ymarfer corfforol. Byddwch yn cael dosbarth ymarfer o leiaf unwaith yr wythnos a bydd gweithgareddau eraill y tu allan i oriau ysgol gyda'r nosau neu ar benwythnosau.
- Bydd eich holl ddysgu yn cael ei addasu i ateb unrhyw anghenion ychwanegol a all fod gennych.



Safon
y ddalfa
14

## Blaenoriaeth yr holl bobl sy’n gofalu amdanaf yw fy nghadw i a’r rheini o’m cwmpas yn ddiogel.

- Bydd staff yn gwirio’n rheolaidd i sicrhau eich bod yn ddiogel a’ch bod wedi ymgartrefu. Byddant ond yn eich deffro yn fwriadol os oes rhywbeth o’i le. 48 Safonau dalfa.
- Weithiau gall fod angen i swyddogion y ddalfa, gweithwyr cyfiawnder ieuenctid neu weithwyr allweddol eich archwilio trwy ddal darganfyddwr metal neu drwy eich archwilio’n gorfforol i wirio nad ydych yn dal unrhyw beth a allai fod yn beryglus i chi neu eraill. Gall hyn gynnwys archwiliad mwy trwyadl o’ch dillad neu’ch corff.
- Gallwch ofyn i weld **eiriolwr** os oes eisiau cymorth arnoch ar ôl archwiliad.
- Mae eich cadw chi ac eraill yn ddiogel yn flaenoriaeth, felly byddwch yn cael eich cadw ar wahân o blentyn arall pan allai fod risg diogelwch i’r naill neu’r llall ohonoch. Dylech chi ddweud wrth swyddogion y ddalfa os ydych yn pryderu am unrhyw blant eraill.
- Weithiau gall fod angen i staff ddefnyddio grym i’ch atal rhag niweidio’ch hun neu eraill, ond dim ond ar ôl iddynt roi cynnig ar ffyrdd eraill i atal niwed.
- Os byddant yn defnyddio grym, dylech bob amser gael y cyfle i siarad drwy’r hyn a ddigwyddodd wedi hynny ag aelod o staff nad oedd yn cymryd rhan ac aelod o’r tîm iechyd. Gallwch hefyd siarad ag eiriolwr ar unrhyw adeg.



Safon y ddalfa

15

## Byddaf yn cael fy nghefnogi os bydd angen i mi symud i garchar i oedolion.

- Ar ôl i chi droi'n 18, gallwch gael eich symud i mewn i garchar oedolion (hyd yn oes os ydych ar **remánd**). Gelwir hyn yn drosglwyddo weithiau.
- Bydd eich **rheolwr achos** YJS yn cyfarfod â chi o leiaf ddwy waith i drafod beth fydd yn digwydd ac yn creu cynllun ar eich cyfer. Bydd yn esbonio'r prif wahaniaethau rhwng dalfa ieuenctid a'r carchar i oedolion. Byddwch hefyd yn siarad am eich anghenion iechyd ac addysg, yn ogystal ag unrhyw bryderon sydd gennych am y symudiad.
- Bydd y cyfarfod cyntaf o leiaf un mis cyn i chi symud i mewn i'r carchar oedolion a bydd yr ail gyfarfod o leiaf 10 diwrnod cyn i chi symud.
- Gwahoddir eich rhieni neu ofalwyr, **gweithiwr cymdeithasol** a **chynghorwr personol** (os oes gennych un) i ymuno â'r cyfarfodydd hyn.





## Beth allaf i ei wneud os nad yw'r safonau hynny'n cael eu hateb?

Os ydych yn meddwl nad yw'r safonau hyn wedi cael eu hateb, dylech ddweud wrth yr unigolyn a enwir yn y safon, neu gall unrhyw oedolyn sy'n eich cynorthwyo dweud wrthynt ar eich rhan. Os nad ydych am wneud hyn neu nad ydych yn hapus â'r ymateb rydych yn ei gael, gallwch wneud cwyn.

Mae ffyrdd gwahanol i gwyno a gallwch ddewis pa ffordd sy'n well gennych. Mae'r math o leoliad rydych ynddo yn effeithio ar bwy y dylech gwyno iddo/iddi.

**Os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad lleoliad**

- Os ydych chi, eich rhieni neu ofalwyr, neu'ch **cyfreithiwr** yn anhapus â lle mae'r **Gwasanaeth Dalfa Ieuenctid** wedi'ch lleoli, gall unrhyw un ohonoch apelio yn erbyn y penderfyniad. Mae hyn yn golygu yr edrychir ar y penderfyniad eto.
- I osod apêl, mae'n rhaid i chi ysgrifennu'ch rhesymau mewn e-bost at YCSTransfers@justice.gov.uk

**Ym mhob lleoliad**

- Gallwch siarad â'ch gweithiwr allweddol, unrhyw aelod o staff rydych yn ymddiried ynddo/ynddi, eich gweithiwr iechyd, y **caplan**, eich **rheolwr achos** YJS, **eiriolwr** annibynnol, eich **gweithiwr cymdeithasol**, eich **cynghorwr personol** neu eich **swyddog adolygu annibynnol** os oes gennych un.
- Gallwch alw llinell gyngor y Comisiynydd Plant. Os ydych chi yn Lloegr, y rhif yw **0800 528 0731**, neu gallwch gysylltu a nhw ar eu gwefan. Os ydych chi yng Nghymru, y rhif yw **0808 801 1000**, neu gallwch chi gysylltu â nhw ar eu gwefan.

- Os yw eich cwyn ynghylch rhywbeth i'w wneud â'ch gofal iechyd, gallwch gwyno i'r tîm iechyd. Os ydych chi yn Lloegr, gallwch hefyd gwyno i NHS Lloegr. Eu rhif yw **0300 311 2233**, neu gallwch ganfod mwy ar eu gwefan. Os ydych yng Nghymru, gallwch gwyno i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Eu rhif yw **0300 003 0383**, neu gallwch ganfod mwy ar eu gwefan.
- Gallwch gwyno am eich cyfreithiwr i Awdurdod Rheoleiddio'r Cyfreithwyr.

**Os ydych mewn sefydliad troseddwyr ifanc (YOI)**

- Gallwch gysylltu â'ch **Bwrdd Monitro Annibynnol**, neu gallwch siarad â nhw pan fyddant yn ymweld. Maen nhw'n gwirio os yw YOI yn ddiogel a'ch bod yn cael eich trin yn deg yno.
- Gallwch gwyno i **Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth** neu **Ymchwiliadau Annibynnol Cwynion Carcharorion**. Gallwch ofyn i **eiriolwr** annibynnol eich helpu
- Gallwch ysgrifennu eich cwyn a'i rhoi mewn blwch. Mae blychau â lliwiau gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o gwynion.
- Gall Barnardo's ddarparu eiriolwr i'ch cynorthwyo chi. Gallwch alw Barnardo's ar **0808 168 2694**.

**Os ydych mewn canolfan hyfforddi ddiogel (STC)**

- Gallwch gwyno i'r **Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth** neu'r **Ymchwiliadau Annibynnol Cwynion Carcharorion**. Gallwch ofyn i eiriolwr annibynnol eich helpu.
- Gall Barnardo's ddarparu eiriolwr i'ch cynorthwyo chi. Gallwch alw Barnardo's ar **0808 168 2694**.

### Os ydych mewn cartref plant diogel

- Gallwch gwyno i reolwr y cartref. Gallwch ofyn i rywun annibynnol (mae hyn yn golygu rhywun nad yw'n gweithio i'r cartef) edrych ar eich cwyn.
- Gallwch hefyd wneud cwyn i'ch **awdurdod lleol**.
- Gall Barnardo's ddarparu **eiriolwr** i'ch cynorthwyo chi. Mae'r rhif ffôn yn wahanol i'r rhif ar gyfer YOI a STC. Bydd aelod o'r staff yn rhoi'r rhif os gofynnwch chi.

### Os ydych mewn ysgol ddiogel (SS)

- Gallwch gwyno i unrhyw aelod o staff. Gallwch ofyn i eiriolwr annibynnol eich helpu.
- Os ydych yn anhapus a chanlyniad eich cwyn gallwch apelio i naill ai'r Rheolwr neu'r Prif Gyfarwyddwr.
- Os ydych yn dal yn anhapus a'r canlyniad, bydd staff yn eich cynorthwyo â'r camau nesaf.



# Beth sy’n digwydd ar ôl i mi adael dalfa ieuenctid?





Os ydych yn aros yn y **ddalfa** fel rhan o'ch **dedfryd** neu ar **remánd**, dylai fod cynllun mewn grym ar gyfer eich rhyddhau i'ch cynorthwyo ar gyfer bywyd ar ôl y ddalfa. Gelwir hyn yn ailgynefino neu drawsnewid.

Dylai cynllunio ailgynefino ddechrau cyn gynted â'ch bod yn mynd i mewn i'r ddalfa a bydd yn cynnwys llawer o bobl, gan eich cynnwys chi, eich teulu, eich rheolwr achos Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (YJS), eich **gweithiwr cymdeithasol**, eich **cynghorwr personol**, a **gweithiwr ailgynefino** wedi'i leoli yn y ddalfa (er y gall gael ei alw'n rhywbeth gwahanol).

Os ydych wedi cael eich dedfrydu i'r ddalfa, byddwch fel arfer yn treulio rhywfaint o'ch dedfryd ar **oruchwyliaeth** neu **drwydded** yn y gymuned. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i chi ddilyn rheolau penodol fel byw mewn cyfeiriad penodol ac aros mewn cysylltiad â'ch rheolwr achos YJS. Gallech chi fynd yn ôl i'r ddalfa os ydych yn torri rheolau'ch goruchwyliaeth neu drwydded.

Mae'r safonau ailgynefino isod yn esbonio sut y dylech gael eich trin pan fyddwch yn gadael y ddalfa.

Safon ailgynefino
1

## Bydd cynllunio ar gyfer fy mywyd ar ôl y ddalfa yn dechrau'n syth ac yn parhau trwy gydol fy amser yn y ddalfa..

- Byddwch yn cael cyfarfod **cynllunio ailgynefino** cychwynnol yn y 10 diwrnod cyntaf o fynd i mewn i'r **ddalfa**.
- Dylech chi wedyn gael cyfarfodydd dilyniant rheolaidd i drafod beth sy'n digwydd pan gewch eich rhyddhau. Dylai'ch **gweithiwr ailgynefino** sicrhau eich bod yn gwybod pryd fydd eich cyfarfod nesaf.
- Dylai'ch **rheolwr achos** YJS, eich gweithiwr ailgynefino, eich **gweithiwr cymdeithasol** a'ch **cynghorwr personol** (os oes gennych un) fod yn y cyfarfodydd hyn. Dylai eich rhieni neu ofalwyr hefyd gael eu gwahodd i ymuno, yn ogystal â phobl eraill fel gweithwyr iechyd.
- Yn y cyfarfodydd hyn, byddwch yn cytuno ar gynllun ar gyfer pryd y cewch eich rhyddhau. Dylai'r cynllun gynnwys unrhyw gymorth y gall fod ei angen arnoch i symud ymlaen â'ch bywyd, gan gynnwys eich nodau addysg neu yrfa, eich anghenion iechyd a ble byddwch chi'n byw. Gall hyn gael ei alw'n gynllun ailgynefino neu gynllun **dedfryd**.
- Byddwch hefyd yn trafod os byddwch yn gallu gadael y ddalfa i fynd ar ymweliad byr neu gymryd rhan mewn gweithgaredd yn y gymuned i'ch helpu i baratoi ar gyfer eich rhyddhau. Gallai hyn gael ei alw'n **ryddhau ar drwydded dros dro** neu **symudedd**. Mae ar gael yn unig os ydych yn y ddalfa neu ar ddedfryd, nid os ydych yn y ddalfa ar **remánd**. Bydd penderfyniadau yn ystyried risgiau bob amser.

## Safon ailgynefino 2

### Byddaf yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am fy rhyddhau a gwrandewir ar fy marn a'i chymryd o ddifrif.

- Yn eich cyfarfodydd **cynllunio ailgynefino**, gwrandewir ar eich nodau a'ch gobeithion ar gyfer y dyfodol a dylent helpu ffurfio cynlluniau ar gyfer eich amser yn y **ddalfa** a'ch rhyddhau.
- Bydd eich **rheolwr achos** YJS a **gweithiwr ailgynefino** yn dweud wrthych am unrhyw benderfyniadau am eich rhyddhau. Byddant yn sicrhau bod eraill sy'n eich cynorthwyo (fel eich teulu, **gweithiwr cymdeithasol** neu **gynghorwr personol** yn cymryd rhan.

## Safon ailgynefino 3

### Bydd y bobl sy'n fy nghynorthwyo yn deall fy stori ac yn gweithio gyda'i gilydd i fy helpu.

- Gall fod llawer o bobl sy'n cymryd rhan yn eich cynorthwyo, ond dylech weithio'n uniongyrchol gydag ychydig o bobl rydych yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt yn unig.
- Dylai'r bobl sy'n eich cynorthwyo ddysgu am eich bywyd, unrhyw broblemau a wynebwch a'r cymorth y gall fod ei angen arnoch.
- Bydd y bobl sy'n eich cynorthwyo yn siarad yn rheolaidd â'i gilydd i rannu gwybodaeth i'ch helpu i wneud cynlluniau ar gyfer eich bywyd ar ôl eich rhyddhau. Ni ddylai fod rhaid i chi ddal ati i ddweud eich stori wrth bobl newydd na chael eich gorfodi i fynd i lawer o gyfarfodydd gwahanol.

Safon ailgynefino
4

## Bydd cynllun mewn grym ar gyfer fy nysgu ar ôl i mi gael fy rhyddhau.

- Dylai cynllunio ar gyfer eich dysgu tra'ch bod yn y **ddalfa** gynnwys beth fydd yn digwydd ar ôl i chi gael eich rhyddhau.
- Dylai'r swyddogion proffesiynol yn y ddalfa sy'n gyfrifol am eich dysgu ystyried eich buddiannau a'ch uchelgeisiau ac unrhyw gymorth y gall fod angen arnoch i'w cyflawni.
- Os ydych yn gymwys i'ch **rhyddhau ar drwydded dros dro neu symudedd**, gallwch fynd ar ymweliad byr i **ddyddiau agored** mewn ysgolion neu golegau, mynd ar gwrs, neu fynd i gyfweliad swydd.



Safon ailgynefino
5

## Dylwn i wybod lle byddaf yn byw mewn da bryd cyn i mi gael fy rhyddhau, a dylai hyn fod yn lle diogel ac addas..

- Dylai cynllunio ar gyfer ble byddwch chi'n byw pan fyddwch yn gadael y **ddalfa** ddechrau ar unwaith. Dylai eich **rheolwr achos** YJS anelu at gadarnhau ble rydych chi'n byw o leiaf chwe mis cyn eich rhyddhau.
- Os nad yw'n bosibl dychwelyd i'r man lle roeddech yn byw o'r blaen, byddwch yn cael eich helpu i ddod o hyd i rywle sy'n ddiogel, yn gyfforddus ac yn diwallu eich anghenion.
- Gwrandewir ar eich safbwyntiau a dylai pawb wneud eu gorau i ganfod rhywle rydych chi'n hapus i fyw ynddo.
- Dylai'ch rheolwr achos YJS (a **gweithiwr cymdeithasol** neu **gynghorwr personol** os oes gennych un) ymweld â'ch llety cyn i chi symud i mewn i sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn addas.
- Os ydych yn gymwys am gael eich **rhyddhau ar drwydded dros dro neu symudedd**, gallech ymweld â'ch llety cyn i chi gael eich rhyddhau.

Safon ailgynefino
6

## Byddaf yn cael fy helpu i gyrchu gofal iechyd parhaol pan fyddaf yn gadael y ddalfa, am gyhyd ag y bydd ei angen arnaf i.

- Bydd cynllunio ar gyfer eich rhyddhau yn cynnwys sicrhau eich bod yn parhau i dderbyn unrhyw ofal iechyd neu feddygol fydd ei angen arnoch pan fyddwch yn gadael y **ddalfa**.
- Dylai'r tîm iechyd yn y ddalfa drefnu hyn ar eich cyfer a sicrhau eich bod yn gwybod ble i fynd am driniaeth a chymorth meddygol.
- Dylent hefyd eich helpu i gofrestru â meddyg a throsglwyddo'r wybodaeth am eich anghenion iechyd i unrhyw un sydd ag angen gwybod (gyda'ch caniatâd).
- Dylid rhoi unrhyw feddyginiaethau sydd eu hangen arnoch i chi cyn i chi adael y ddalfa fel nad ydych yn mynd yn brin ohonynt.

Safon ailgynefino
7

## Bydd unrhyw reolau mae'n rhaid i mi eu dilyn yn deg a chyflawnadwy.


- Bydd eich **rheolwr achos** YJS yn cadw mewn cysylltiad â chi ar ôl eich rhyddhau a bydd yn esbonio ble, pryd a pha mor aml y disgwylir i chi gyfarfod.
- Bydd yn esbonio unrhyw bethau sydd angen i chi eu gwneud fel rhan o'ch **trwydded** neu unrhyw amodau **goruchwylio** mae'n rhaid i chi eu dilyn hyd bod eich **dedfryd** yn dod i ben.
- Dylech gael cyfle i siarad am unrhyw heriau neu bryderon a all fod gennych, a pha gymorth a allai fod ei angen arnoch i ddilyn yr amodau.



Safon ailgynefino
8

## Byddaf yn cael cymorth o ansawdd uchel yn y gymuned i'm helpu i ailaddasu ac i ailadeiladu fy mywyd.

- Ar ddiwrnod eich rhyddhau, byddwch yn cael eich cyfarfod gan eich rheolwr achos YJS neu rywun arall rydych yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo/ynddi sy'n gyfarwydd â'ch cynllun ailgynefino. Dylai fynd â chi i ble byddwch chi'n byw.
- Dylai eich rheolwr achos YJS barhau i weithio'n agos gyda phobl eraill ar ôl eich rhyddhau i roi'r cymorth sydd ei angen arnoch i arwain bywyd sefydlog a rhydd rhag troseddu.
- Bydd hefyd yn esbonio beth mae cael record troseddol yn ei olygu i chi a phryd y gallai fod angen i chi ddweud wrth gyflogwyr neu **ddarparwyr addysg** posibl amdano.
- Bydd yn gwirio'n rheolaidd ar sut mae pethau'n mynd ac yn eich helpu ag unrhyw broblemau a allai fod gennych.
- Os ydych yn 16 oed o leiaf ac wedi bod ar **remánd** am 13 wythnos neu fwy ers i chi fod yn 14 oed, bydd gennych statws ymadäwr gofal ar ddiwedd eich remánd. Wrth adael y **ddalfa**, bydd eich rheolwr achos YJS, **gweithiwr cymdeithasol** neu **gynghorwr personol** yn dweud wrthych beth mae'r statws hwn yn ei olygu a pha gymorth ychwanegol fydd ar gael i chi - er enghraifft, y gwasanaethau y gallwch eu cyrchu.



Safon ailgynefino
9

## Byddaf yn cael fy nghynorthwyo i aros yn ddiogel ar ôl i mi adael y ddalfa..


- Mae gan eich **rheolwr achos** YJS gyfrifoldeb i'ch cadw'n ddiogel. Bydd yn gwrando ar unrhyw bryderon sydd gennych am eich diogelwch a bydd yn ymdrin â nhw yn y ffordd gywir.
- Os yw'ch trefniadau byw yn mynd yn anniogel ar unrhyw adeg, dylai'ch rheolwr achos YJS eich helpu i ganfod rhywle arall i aros.
- Os oes bygythiad mawr i'ch diogelwch, gallwch gael eich symud er diogelwch. Os yw hyn yn digwydd, bydd eich rheolwr achos YJS yn sicrhau bod gennych y cymorth cywir yn ei le yn eich cartref newydd ac yn helpu rheoli'r symudiad hwn.
- Os ydych wedi cael eich rhyddhau o'r **ddalfa** yn dilyn eich **remánd** heb eich canfod yn euog, ni fydd eich rheolwr achos YJS yn gyfrifol amdanoch chi. Bydd eich **awdurdod lleol** yn sicrhau bod gennych rywle diogel i fynd.



Safon ailgynefino
# 10

## Byddaf yn cael fy nghynorthwyo trwy unrhyw newid yn fy ngoruchwyliaeth. Bydd hyn yn cael ei gynllunio'n ofalus gyda fy mudd pennaf dan ystyriaeth.

- Os ydych yn troi'n 18 cyn neu'n fuan ar ôl gadael y ddalfa, bydd eich **rheolwr achos** YJS yn eich helpu â'r symudiad i **wasanaethau profiannaeth** oedolion. Dylai fod cynllun mewn grym i wneud y trawsnewid hwn mor llyfn â phosibl, er mwyn i chi gael y cymorth sydd ei angen arnoch.
- Gallwch chi barhau i gael cymorth gan eich tîm YJS hyd yn oed ar ôl i chi droi'n 18. Bydd hyn yn cael ei benderfynu yn seiliedig ar eich anghenion ac amgylchiadau unigol.






## Beth allaf i ei wneud os nad yw'r safonau hynny'n cael eu hateb?

Os ydych yn meddwl nad yw'r safonau hyn wedi cael eu hateb, dylech ddweud wrth yr unigolyn a enwir yn y safon, neu gall unrhyw oedolyn sy'n eich cynorthwyo dweud wrthynt ar eich rhan. Os nad ydych am wneud hyn neu nad ydych yn hapus â'r ymateb rydych yn ei gael, gallwch wneud cwyn.

Mae ffyrdd gwahanol i gwyno a gallwch ddewis pa ffordd sy'n well gennych.

- Siaradwch â'ch **rheolwr achos** YJS.
- Gofynnwch i siarad â rheolwr eich YJS.
- Siaradwch â'ch **gweithiwr cymdeithasol**, **cynghorwr personol** neu **swyddog adolygu annibynnol** os oes gennych un.
- Cysylltwch ag adran gwynion eich **awdurdod lleol**.
- Gallwch linell gyngor y Comisiynydd Plant. Os ydych chi yn Lloegr, y rhif yw **0800 528 0731**, neu gallwch gysylltu â nhw ar eu gwefan. Os ydych chi yng Nghymru, y rhif yw **0808 801 1000**, neu gallwch chi gysylltu â nhw ar eu gwefan.
- Gallwch gwyno am eich cyfreithiwr i Awdurdod Rheoleiddio'r Cyfreithwyr.



# Dolenni o gymorth

**Oedolyn priodol:**

Ynghylch oedolion priodol - Rhwydwaith Oedolion Priodol Cenedlaethol

**Cymorth ymadäwr â gofal:**

Trefnwyd a chynorthwywyd: Canllaw i hawliau ymadäwyr â gofal – Coram Voice

**Childline:**

Cesiwch help a chyngor am amrediad eang o faterion ar wefan Childline

**Recordiau troseddol:**

Datgelu eich record droseddol: Cyfarwyddyd ar gyfer y rheini â throseddau - GOV.UK

**Trwydded ac adalw:**

Gwybod eich hawliau: Animeiddiad ar drwydded ac adalw - The Howard League

**Gwneud cwyn am yr heddlu:**

Canllaw unigolyn ifanc i system gwynion yr heddlu - Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

**Atal a chwilio:**

Atal a chwilio - Heddlu'r Metropolitan

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:**

Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

**Safonau gofal iechyd mewn lleoliadau diogel:**

Safonau gofal iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc mewn lleoliadau diogel - Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant

# Geiriau anodd





Rydym wedi defnyddio rhai geiriau yn y siarter hwn na fyddech efallai yn eu deall. Rydym wedi eu rhestru isod ac esbonio beth maen nhw'n eu golygu. Bwriad yr esboniadau hyn yw eich helpu i ddeall y siarter hwn, nid ydynt yn ddiffiniadau cyfreithiol.

**Rhyddhad diamod:** Dyma ble mae'r llys yn penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau ychwanegol, er eich bod wedi cael eich canfod yn euog.

**Gwasanaeth profiannaeth oedolion:** Mae pobl sy'n gweithio i'r gwasanaeth profiannaeth yn gyfrifol am oruchwylio unrhyw un 18 oed a throsodd sydd wedi cael ei ryddhau o'r ddalfa neu sydd wedi derbyn dedfryd gymunedol. Fe'u gelwir yn weithwyr profiannaeth.

**Eiriolwr:** Dyma rywun sy'n gallu rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i chi a'ch helpu i ddeall eich hawliau. Gallant hefyd eich helpu i leisio pryderon os ydych yn anhapus am rywbeth.

**Apêl:** Mae hwn yn gais ffurfiol i ailystyried penderfyniad. Gallai hyn fod os ydych yn meddwl bod penderfyniad anghywir wedi cael ei wneud. Un enghraifft fyddai os ydych yn anhapus â ble mae'r Gwasanaeth Dalfa Ieuenctid wedi'ch lleoli ac rydych am apelio yn erbyn penderfyniad y lleoliad. Gallai penderfyniad beidio â chael ei newid hyd yn oed os ydych yn apelio.

**Oedolyn priodol:** Dyma unigolyn cyfrifol 18 oed neu hŷn sy'n eich cynorthwyo yng ngorsaf yr heddlu a phan fyddwch yn cael eich cyfweld gan yr heddlu. Gall oedolyn priodol fod yn rhiant, gofalwr neu berthynas arall. Os nad yw'r unigolyn sy'n gofalu amdanoch fel arfer yn gallu bod yn oedolyn priodol i chi, bydd yr heddlu yn gofyn i weithiwr cymdeithasol neu oedolyn priodol hyfforddedig o'ch cynllun lleol.

**Arestio:** Dyma pryd mae swyddog heddlu yn defnyddio'i bwerau cyfreithiol i fynd â chi i'r orsaf heddlu. Gallai hyn fod i'ch cyfweld chi.

**Mechnïaeth:** Mae hyn yn rhyddhad dros dro i chi os ydych o dan ymchwiliad am eich rhan mewn trosedd. Pan rydych ar fechnïaeth mae'n rhaid i chi ddychwelyd i orsaf yr heddlu neu fynd i'r llys ar adeg neilltuol ac ar ddiwrnod neilltuol. Mae'n gamwedd troseddol i beidio a gwneud hyn. Mechnïaeth amodol yw ble mae'n rhaid i chi ddilyn rheolau penodol tra'ch bod ar fechnïaeth. Os nad ydych yn gwneud hyn, gallech gael eich arestio.

**Cais am fechnïaeth:** Dyma pryd mae'ch cyfreithiwr yn gofyn i'r barnwr neu'r ynadon i'ch rhyddhau ar fechnïaeth. Bydd eich cyfreithiwr yn cynnwys gwybodaeth gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Dylech chi a'ch teulu gael eich helpu i ddeall y rhesymau am hyn. Os na chewch eich rhyddhau ar fechnïaeth, gallwch wneud rhagor o geisiadau am fechnïaeth.

**Penderfyniad mechnïaeth:** Dyma pan mae barnwr neu ynadon yn penderfynu eich rhyddhau chi ar fechnïaeth neu eich rhoi ar remánd (penderfynu y dylech aros yn y ddalfa).

**Camerâu wedi'u gwisgo ar y corff:** Dyfeisiau recordio yw'r rhain wedi'u gwisgo gan swyddogion heddlu. Gallant recordio fideo a sain pan fydd yr heddlu o gwmpas y cyhoedd.

**Gofalwr:** Rhywun sy'n gofalu am ac yn rhoi cymorth i unigolyn arall. Gall hyn fod yn gymorth ymarferol (fel coginio prydau bwyd) a chymorth emosiynol (fel gwrando ar yr unigolyn os yw'n ofidus). Gall gofalwyr fod yn oedolion neu'n blant.

**Rheolwr achos:** Rheolwr achos y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yw eich prif bwynt cyswllt o'ch gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid lleol. Bydd eich rheolwr achos yn gweithio gyda chi, eich teulu a gweithwyr proffesiynol eraill i ddeall eich sefyllfa a rhoi'r cymorth sydd ei angen arnoch. Bydd yn gwneud cynllun i'ch cynorthwyo ac yn helpu'ch atal rhag cyflawni trosedd yn y dyfodol.

**Cell llys neu heddlu:** Dyma ble rydych yn aros mewn gorsaf heddlu neu mewn adeilad llys yn aros i fynd y tu mewn i ystafell y llys. Mae'r drws wedi'i gloi i'ch cadw chi ac eraill yn ddiogel.

**Caplan:** Mae caplan yn arweinydd crefyddol sy'n gallu rhoi cymorth a chyfarwyddyd i chi. Gall fod o unrhyw ffydd ac nid oes rhaid i chi fod yn grefyddol i siarad ag ef/hi.

**Cyhuddiad:** Os yw'r heddlu yn credu eich bod wedi cyflawni trosedd, byddant yn eich cyhuddo. Mae hyn fel arfer yn golygu bod rhaid i chi fynd i lys. Rhoddir naill ai fechnïaeth i chi a dyddiad i fynychu llys, neu eich cadw yn y ddalfa yng ngorsaf yr heddlu a'ch cymryd i'r llys y diwrnod wedyn.

**Comisiynydd Plant:** Mae yna Gomisiynydd Plant i Loegr a Chomisiynydd Plant i Gymru. Maen nhw'n gwarchod hawliau plant ac yn sefyll dros eich safbwyntiau a'ch buddiannau. Gallant roi cymorth a chyngor i chi.

**Cyngor ar Bopeth:** Mae'r sefydliad hwn yn gallu rhoi cyngor cyfrinachol i chi am lwyth o faterion gwahanol. Maen nhw'n gwneud hyn ar-lein, dros y ffôn ac mewn person.

**Dedfryd gymunedol:** Dyma fath o ddedfryd lle rydych yn rhydd i fynd adref ond mae'n rhaid i chi ddilyn rheolau penodol a gwneud pethau penodol am gyfnod gosodedig o amser. Mae dau fath o ddedfryd gymunedol, Gorchymyn Atgyfeirio a Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid. Os ydych yn derbyn Gorchymyn Atgyfeirio, byddwch yn cyfarfod â phanel cymuned fydd yn goruchwylio eich gorchymyn

**Gorchymyn llys:** Dyma pan fydd barnwr neu ynad yn dweud bod rhaid i chi wneud rhywbeth.

**Llys y Goron:** Math o lys sy'n ymdrin â'r troseddau mwyaf difrifol, fel llofruddiaeth. Mae rheithgor fel arfer mewn achosion Llys y Goron.

**Y ddalfa:** Gall y ddalfa olygu ystafell wedi'i chloi mewn gorsaf heddlu, ystafell wedi'i chloi mewn llys, neu yn y man lle rydych yr aros os ydych yn cael eich dedfrydu i'r ddalfa (i oedolion gelwir y lle hwn yn garchar).

**Staff y ddalfa:** Pobl yw'r rhain sy'n gweithio mewn sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel a chartrefi plant diogel.

**Dadarestio:** Mae hyn yn golygu nad ydych wedi'ch arestio rhagor. Bydd yr heddlu yn eich rhyddhau oherwydd bod y rhesymau y gwnaethant eich arestio wedi newid.

**Doc:** Mae hon yn ardal ar wahân mewn ystafell llys lle mae'r unigolyn a gyhuddir o gyflawni trosedd yn eistedd. Weithiau mae'r doc yn ddiogel, sy'n golygu ei fod y tu ôl i wydr gyda staff diogelwch y llys.

**Cyfreithiwr dyletswydd:** Cyfreithiwr yw hwn sy'n rhoi cyngor, cymorth a chynrychiolaeth gyfreithiol i rywun nad oes ganddo/ganddi gyfreithiwr ei hun. Nid oes rhaid i chi dalu am y cyfreithiwr dyletswydd.

**Darparwyr addysg:** Gallai hyn fod yn ysgol, coleg neu brifysgol.

**Gwarcheidwad:** Dyma'r oedolyn sy'n gyfrifol am ofalu amdanoch chi a gwneud penderfyniadau am eich addysg, iechyd a magwraeth.

**Gwrandawiad:** Cyfarfod ffurfiol yn y llys lle mae penderfyniadau yn cael eu gwneud am achos troseddol.

**Bwrdd Monitro Annibynnol:** Grŵp o wirfoddolwyr yw hwn sy'n ymweld â sefydliadau troseddwyr ifanc ac yn adrodd ar os ydynt yn ddiogel a bod y bobl ifanc yno yn cael eu trin yn deg. Maen nhw ar wahân i'r bobl sy'n rhedeg y sefydliad troseddwyr ifanc. Gallwch ofyn i siarad a nhw'n breifat am unrhyw broblemau a allai fod gennych, a byddant yn helpu lle gallant neu'n cael rhywun i'ch helpu.

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu:** Sefydliad yw hwn sy'n ymchwilio i'r cwynion mwyaf difrifol yn ymwneud â'r heddlu. Maen nhw ar wahân i'r heddlu.

**Ymchwiliadau Annibynnol Cwynion Carcharorion:** Sefydliad yw hwn sy'n ymchwilio i gwynion a wneir gan unrhyw un mewn canolfannau hyfforddi diogel neu sefydliadau troseddwyr ifanc.

**Swyddog adolygu annibynnol:** Dyma rywun sy'n arwain adolygiadau ar gyfer 'plant sy'n derbyn gofal'. Ei brif swydd yw sicrhau bod eich cynllun gofal yn ateb eich anghenion. Mae ar wahân i'ch gweithiwr cymdeithasol.

**Cynefino:** Dyma pan rydych yn cael eich helpu i ymgartrefu a dysgu am y llety diogel a'r bobl sy'n gweithio yno. Byddwch yn dysgu beth y gallwch a na allwch ei wneud.

**Cyfryngwr:** Dyma rywun sy'n gallu eich helpu i gyfathrebu â'r heddlu neu'r bobl yn y llys. Eu gwaith yw eich helpu chi a'r oedolion ddeall beth mae'r llall yn ei ddweud. Gallant eich helpu i ddeall y cwestiynau a ofynnir i chi a hefyd eich helpu i roi eich atebion yn glir.

**Barnwr:** Dyma'r unigolyn sydd yn gyfrifol am ystafell y llys. Yn Llys y Goron, bydd y barnwr yn dweud wrth y rheithgor am y gyfraith. Mae'r barnwr yn gwneud y penderfyniad am beth ddylai ddigwydd os cewch eich canfod yn euog o drosedd. Rheithgor: Mae rheithgor yn grŵp o 12 o bobl sy'n gwrando ar yr holl dystiolaeth yn y prawf ac yn penderfynu os ydych yn euog neu'n ddieuog.

**Cyfreithiwr:** Dyma rywun sydd wedi'i hyfforddi i ddeall y gyfraith. Bydd yn sicrhau eich bod yn gwybod eich hawliau, yn esbonio i chi beth sy'n digwydd ac yn rhoi cyngor cyfreithiol i chi. Mae'r cyfreithiwr yn gweithio i chi (nid i'r heddlu na'r llys).

**Trwydded:** Os ydych chi 'ar drwydded' neu 'wedi'ch rhyddhau ar drwydded', mae'n golygu y byddwch yn cwblhau gweddill eich dedfryd yn y gymuned ar ôl i chi dreulio amser yn y ddalfa. Pan fyddwch ar drwydded, mae'n rhaid i chi lynu at reolau penodol a byddwch yn cael eich goruchwylio gan reolwr achos Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Os nad ydych yn glynu at y rheolau, gallech orfod mynd yn ôl i'r ddalfa. Weithiau gelwir trwydded yn 'hysbysiad goruchwyliaeth'.

**Awdurdod lleol:** Enw arall yw hwn am y cyngor lleol neu lywodraeth leol. Maen nhw'n rhedeg gwasanaethau fel ysgolion, canolfannau chwaraeon, gwasanaethau cymdeithasol a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid.

**Llety awdurdod lleol:** Dyma le i fyw sy'n cael ei ddarparu gan y cyngor lleol (fe'i gelwir hefyd yn awdurdod lleol). Os ydych yn cael eich traddodi i lety awdurdod lleol, dywedir wrthych lle mae'n rhaid i chi fyw tra'ch bod yn aros am eich prawf. Gallai hyn fod yng nghartref eich teulu, cartref maeth dros dro neu mewn cartref plant.

**Plentyn sy'n derbyn gofal:** Mae hyn yn golygu bod gan eich awdurdod lleol gyfrifoldeb dros eich gofal a'ch lles. Byddwch yn cael gweithiwr cymdeithasol a'i waith yw gofalu am eich budd pennaf.

**Ynad:** Dyma rywun sy'n gwneud gwaith tebyg i farnwr. Mae dau neu dri ynad fel arfer sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn llys ieuenctid. Maen nhw'n gwrando ar yr holl dystiolaeth ac yn gwneud penderfyniadau, gan gynnwys am yr hyn ddylai ddigwydd os cewch eich canfod yn euog.

**Symudedd:** Mae hyn yn golygu y caniateir i chi adael y ganolfan hyfforddi ddiogel neu gartref plant diogel rydych chi ynddo am amser byr. Os ydych chi mewn canolfan troseddwyr ifanc, gelwir hyn yn ryddhad ar drwydded dros dro.

**Trosedd:** Mae cyflawni trosedd yn golygu gwneud rhywbeth sydd yn erbyn y gyfraith.

**Diwrnod agored:** Dyma pan allwch chi ymweld ag ysgol neu goleg i weld sut mae e a chanfod pa gyrsiau mae'n eu haddysgu.

**Datrysiad y tu allan i'r llys:** Dyma rywbeth y gallai'r heddlu ei roi i chi os ydynt yn meddwl eich bod wedi torri'r gyfraith. Mae'n golygu nad oes rhaid i chi fynd i'r llys. Mae mathau gwahanol o ddatrysiadau y tu allan i'r llys â rheolau gwahanol a phethau y bydd angen i chi eu gwneud.

**Cynghorwr personol:** Dyma rywun sy'n cynnig cyngor, cymorth a gwybodaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Bydd yn gweithio ochr yn ochr â'ch gweithiwr cymdeithasol i helpu'ch paratoi i fod yn oedolyn a bydd yn parhau i'ch cynorthwyo cyn gynted â'ch bod yn troi'n 18.

**Lleoliad:** Dyma'r math o lety diogel rydych chi'n mynd i aros ynddo.

**Dalfa'r heddlu:** Mae aros yn nalfa'r heddlu yn golygu eich bod yn aros yng ngorsaf yr heddlu. Weithiau gallech chi aros yn nalfa'r heddlu hyd eich gwrandawiad llys cyntaf. Gallai hyn ddigwydd os ydych wedi cael eich rhoi ar remánd gan yr heddlu ac nad oes lle i chi aros mewn llety awdurdod lleol priodol.

**Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth:** Dyma sefydliad sy'n ymchwilio i gwynion gan oedolion sy'n garcharorion, plant mewn sefydliadau troseddwyr ifanc neu ganolfannau hyfforddiant diogel, a phobl ar brofiannaeth. Nid ydynt yn rhan o'r llywodraeth.

**Seiliau rhesymol:** Mae hyn yn golygu bod rhaid i swyddog heddlu amau neu gredu'n wirioneddol y bydd yn canfod eitem cyn iddo eich atal a'ch archwilio.

**Rhyddhau ar drwydded dros dro:** Mae hyn yn golygu eich bod yn gallu gadael y sefydliad troseddwyr ifanc rydych chi ynddo am amser byr. Gallai hyn fod am wahanol resymau, fel cymryd rhan mewn cwrs neu weithgaredd, ymweld â theulu neu helpu'ch paratoi ar gyfer ryddhad. Nid pawb sy'n gallu, a bydd yn dibynnu ar eich dedfryd a pha mor hir rydych wedi treulio, yn ogystal ag os yw staff y ddalfa yn meddwl ei fod yn briodol. Os ydych mewn canolfan hyfforddi ddiogel neu gartref plant diogel, gelwir hyn yn symudedd.

**Remánd:** Os cewch eich cyhuddo â throsedd a gwrthodir mechnïaeth i chi, byddwch yn cael eich rhoi ar remánd. Mae hyn yn golygu bod y barnwr neu ynad yn penderfynu y dylech chi aros mewn llety awdurdod lleol neu lety ieuenctid diogel. Mae'r penderfyniad yn cael ei wneud mewn gwrandawiad remánd.

**Remánd i lety awdurdod lleol:** Gall hyn fod yn byw gartref, gyda pherthynas, mewn gofal maeth neu mewn cartref plant. Mae gan remánd i lety awdurdod lleol reolau fel arfer (a elwir yn 'amodau') megis lleoedd na allwch fynd iddynt neu bobl na allwch siarad â nhw. Mae'n rhaid i chi ddilyn amodau'ch remánd. Os nad ydych, gall fod rhaid i chi aros mewn llety ieuenctid diogel hyd eich ymddangosiad llys nesaf.

**Cynllun ailgartrefu:** Dyma gynllun ar gyfer yr adeg y cewch eich rhyddhau o'r ddalfa. Dylai gynnwys unrhyw gymorth y gall fod ei angen arnoch i symud ymlaen â'ch bywyd. Gallai hyn hefyd gael ei alw'n gynllun dedfryd.

**Gweithiwr ailgartrefu:** Dyma rywun fydd yn gweithio gyda chi, eich rheolwr achos Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, eich gweithiwr cymdeithasol a chynghorwr personol (os oes gennych un) i'ch helpu i gynllunio ar gyfer gadael y ddalfa. Gallai hyn gynnwys eich anghenion iechyd, eich addysg neu gyflogaeth, a lle byddwch chi'n byw.

**Llety diogel:** Dyma rywle mae'n rhaid i chi aros ynddo os rhoddir dedfryd yn y ddalfa neu'ch bod yn cael eich rhoi ar remánd i'r ddalfa. Mae barnwr neu ynad yn penderfynu pa mor hir mae'n rhaid i chi aros yno. Mae mathau gwahanol o lety diogel, gan gynnwys sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, cartrefi plant diogel ac ysgolion diogel. Mae'r rhain oll yn gwneud yr ystâd ieuenctid ddiogel.

**Cartref plant diogel (SCH):** Dyma fath o lety ieuenctid diogel. Mae SCH yn llai na sefydliadau troseddwyr ifanc, gyda 5 i 20 o blant a phobl ifanc yn aros ym mhob cartref.

**Ysgol ddiogel:** Dyma fath newydd o lety ieuenctid diogel. Mae'n safle llai â sawl uned byw. Bydd hyd at 6 o blant a phobl ifanc ym mhob uned.

**Canolfa hyfforddi ddiogel:** Dyma fath o lety ieuenctid diogel. Mae gan STC sawl uned byw. Gall fod 4 i 8 o blant a phobl ifanc yn aros ym mhob uned.

**Dedfryd:** Gall barnwr neu ynad roi dedfryd i chi os ydych yn euog o gyflawni trosedd. Mae dedfryd yn orchymyn gan y llys mae'n rhaid i chi ei ddilyn. Mae mathau gwahanol o ddedfrydau. Mae gan bob dedfryd ofynion penodol mae'n rhaid i chi eu dilyn ond mae rhai yn cynnwys mynd i'r ddalfa (dedfrydau yn y ddalfa) tra bod eraill (dedfrydau cymunedol) yn golygu y gallwch aros gartref. 'Gwrandawiad dedfrydu' yw pan mae'r llys yn penderfynu beth fydd eich dedfryd.

**Gweithiwr cymdeithasol:** Dyma rywun o'ch awdurdod lleol sydd wedi'i hyfforddi i gynorthwyo plant a'u teuluoedd a all fod yn cael trafferthion.

**Stopio a chwilio:** Dyma pan fydd heddlu yn defnyddio'u pwerau cyfreithiol i'ch atal a'ch archwilio. Mae mathau gwahanol o archwiliadau ac mae gan bob un reolau gwahanol mae'n rhaid i'r heddlu eu dilyn.

- Archwiliad dillad allanol: Tynnu 'dillad allanol' – er enghraifft, siaced, cot neu fenig.
- Archwiliad mwy trwyadl: Tynnu dillad allanol – er enghraifft, crys-t, ond nad yw'n datgelu rhannau preifat o'r corff.
- Archwiliad sy'n datgelu rhannau preifat: Tynnu dillad sy'n datgelu rhannau preifat o'r corff.

**Tîm neu weithiwr camddefnyddio sylweddau:** Bydd y bobl hyn yn eich helpu os oes gennych broblem â chyffuriau neu alcohol.

**Goruchwyliaeth:** Dyma pan fyddwch yn cyfarfod â'ch rheolwr achos Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Gallai hyn fod fel rhan o'ch amodau mechnïaeth neu fel rhan o'ch dedfryd. Mae'n rhaid i chi fynd i'r cyfarfodydd hyn.

**Trosglwyddo:** Dyma pan fyddwch yn symud o ystâd dalfa'r ieuenctid i ystâd ddalfa oedolion, pan fyddwch yn 18.

**Prawf:** Dyma pan fydd llys yn gwrando ar yr holl dystiolaeth mewn achos ac yn penderfynu os ydych yn euog neu'n ddieuog. Yn Llys y Goron mae'r penderfyniad hwn yn cael ei wneud gan reithgor. Yn y llys ieuenctid mae'r penderfyniad hwn yn cael ei wneud gan farnwr neu sawl ynad.

**Rhybuddiad ieuenctid a rhybuddiad ieuenctid amodol:** Rhybuddiad yw rhybudd y gall yr heddlu ei gynnig i chi os ydych yn cyfaddef i gyflawni trosedd fach (heb fod yn ddifrifol). Mae hyn yn lle mynd i'r llys. Mae rhybuddiad amodol yn golygu bod pethau penodol mae'n rhaid i chi eu gwneud.

**Llys ieuenctid:** Math arbennig o lys troseddol ar gyfer rhai 10 i 17 oed sydd wedi cael eu cyhuddo â chamwedd troseddol. Mae pob achos yn cychwyn yn y llys ieuenctid ond os yw'r drosedd y cewch eich cyhuddo ohoni yn ddifrifol iawn, bydd yr achos wedyn yn mynd i Lys y Goron.

**Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa:** Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa yn gyfrifol am redeg yr ystâd ieuenctid ddiogel ar gyfer plant a phobl ifanc yn Lloegr a Chymru.

**Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (YJS) neu Dîm Troseddau Ieuenctid (YOT):** Tîm o weithwyr proffesiynol (yn cynnwys heddlu, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr camddefnyddio sylweddau) sy'n gweithio gyda chi os ydych wedi cyflawni, neu dan amheuaeth o gyflawni, trosedd. Gallai'r gwaith maen nhw'n ei wneud gyda chi fod yn wirfoddol neu'n orfodol a bydd yn dibynnu ar eich amgylchiadau a'r drosedd rydych wedi bod yn rhan ohoni.

**Sefydliad troseddwyr ifanc (YOI):** Mae sefydliad troseddwyr ifanc yn fath o lety ieuenctid diogel. Mae'n safle gyda nifer o unedau byw. Gall rhwng 30 a 60 o blant aros ym mhob uned.

**Ystâd ieuenctid ddiogel:** Mae hyn yn cynnwys y mathau gwahanol o lety y gallwch gael eich lleoli ynddynt os ydych yn cael eich dedfrydu neu'ch rhoi ar remând i'r ddalfa. Y mathau o lety yw sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, cartrefi plant diogel neu ysgol ddiogel.